# ECO'R WYDDFA

**Rhif 60** **MEHEFIN 1981** **Pris 15c**

## RHYBUDD!

Ers cychwyn Eco'r Wyddfa bum mlynedd yn ôl, mae wedi bod yn arferiad gennym ddefnyddio'r dudalen ganol i ddangos lluniau ac i gynnwys atgofion am y gorffennol. Y mis hwn rhown gipolwg o'r hyn a all ddigwydd yn y dyfodol – nid yn unig ym mro'r Eco, ond ar wyneb yr holl ddaear. OND – nid golwg obeithiol mohono, a rhybuddiwn chwi y gallai troi i'r dudalen ganol y mis hwn achosi poen meddwl i amryw. Eich dewis chwi ydyw.

## PLANT YN DANGOS Y FFORDD



**NID yn aml iawn y cewch chi blant mor ifanc â'r rhain yn barod i drefnu, ar eu liwt eu hunain, i godi arian at achos da.**

Daeth y syniad i gasglu arian at Gronfa Bywyd Gwyllt y Byd yn gyntaf oddi wrth Bryn (7 oed) mab Hefin a Linda Jones, Pant Mwyn, Llanrug. Meddyliodd Bryn am gynnal 'Pnawn Pop' yn ei ardd ei hun a phan soniodd wrth ei ffrindiau yn yr ysgol – nid oedd yn brin o gefnogaeth.

Aeth y plant ati i lunio posteri i hysbysebu'r fenter, a'u dosbarthu i'r siopau; paratowyd tocynnau mynediad ganddynt a threfnwyd raffl i'w gwerthu o ddrws i ddrws yn y pentref. Cefnogwyr hŷn fu'n gyfrifol am brynu'r pop ac am baratoi teisennau i'w gwerthu ar y diwrnod.

Dydd Sadwrn 16 Mai oedd y diwrnod mawr yng ngardd Pant Mwyn. Y plant oedd yn gyfrifol am y gwahanol stondinau gwerthu – ac roedd digon o amrywiaeth, teganau, llyfrau a chomics, pop a theisennau a gemau o bob math.

Bu'r cyhoeddusrwydd yn gampus oherwydd daeth nifer o blant â'u rhieni efo nhw a chafwyd pnawn llwyddiannus iawn yn goron i holl ymdrech Bryn a'i ffrindiau.

Yn ddiweddar bu'r plant yng Ngwarchodfa Penrhos, Ynys Môn yn cyflwyno'r swm a gasglwyd ganddynt, sef £31.10 i'r Warden Mr Ken Williams. Byddant yn y dyfodol agos yn derbyn tystysgrifau am eu gwaith da.

*Yn y llun uchod* **rhes gefn o'r chwith i'r dde,** *mae Bethan Powell (11 oed), Rhian Powell (12), Sion Dafydd (9).* **Rhes flaen:** *Nerys Powell (7), Lowri Williams (7), Sian Jones (8), Menna Jones (10) a Bryn Jones (7).*

## AGOR CARTREF T.R.H. I'R CYHOEDD



**YN LLANBERIS bnawn Sadwrn 23 Mai agorwyd yn swyddogol i'r cyhoedd gartref y bardd a'r llenor T. Rowland Hughes. Roedd nifer o bobl o bell ac agos wedi ymgynnull yng nghapel Gorffwysfa ar gyfer gwasanaeth coffa'r awdur. Yn dilyn y gwasanaeth dadorchuddiwyd y gofeb wrth ddrws Angorfa ac agorwyd yr amgueddfa.**




*Mr Rowland Wyn Jones o Benysarn, Môn, nai T. Rowland Hughes yn dadorchuddio'r gofeb ar fur Angorfa. Lluniwyd y gofeb gan John Michael Jones.*

Cafwyd y syniad o droi 'Angorfa' yn "gartref" unwaith eto tua pum mlynedd yn ôl. Sefydlodd Cyngor Cymdeithas Llanberis is-bwyllgor dan gadeiryddiaeth Mr Ken Jones i ofalu am y gwaith o atgyweirio a gwneud y tŷ yn ganolfan deilwng, nid yn unig i bentrefwyr Llanberis ond hefyd i bob un ledled Cymru sy'n ymddiddori yn "y pethe".

Ddydd Sadwrn gwireddwyd y syniad. Roedd dros 300 o bobl yn y gwasanaeth coffa a bu'r rhan fwyaf ohonynt yn aros yn eiddgar y tu allan i Angorfa am eu cyfle i weld y lle wedi ei gwblhau. Ar y llawr isaf mae ystafell i bwyllgora neu i gymdeithasu ac i fyny'r grisiau mae amgueddfa fechan sy'n cynnwys lluniau a phob math o bethau sy'n gysylltiedig â T. Rowland Hughes.

(Ein bwriad yw cyhoeddi mewn rhifyn arall o'r Eco ragor o wybodaeth ynglŷn â'r amgueddfa. Nid yw gofod yn caniatáu hynny y tro yma.)

*Parhad ar dudalen 12*

## LLWYDDIANT EISTEDDFODOL



*Dyma lun o Manon Llwyd Evans, Carwyn a Lowri Williams, Cartref. Manon ddaeth yn ail dan 12 oed am baratoi llyfryn ar ddatblygu'r diwydiant trydan-dŵr yng Nghymru. Daeth Lowri yn ail dan 8 oed am ysgrifennu stori 'Un dydd Sadwrn'.*

### Galw'r Dosbarthwyr

**Cofiwch am y cyfarfod i brif ddosbarthwyr yr Eco yn y pentrefi nos Fawrth, 2 Mehefin am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Cwm-y-glo.**

## PÊL-DROEDIWR ARALL YN Y TEULU



*Dyma Stuart Williams, 53 Glanffynnon Llanrug a fu'n cynrychioli tîm pêl-droed 6-bob-ochr ysgolion cynradd Gwynedd yn Abertawe yn ddiweddar. Cyrhaeddasant y rownd derfynol i chwarae yn erbyn Gorllewin Morgannwg ar ôl ennill eu tair gêm flaenorol a Stuart yn sgorio yn un ohonynt. Colli fu eu hanes yn y rownd derfynol. Cyflwynwyd tlysau i bob aelod o'r tîm gan Terry Casey. Yna cawsant fynd i weld y gêm ryngwladol rhwng Cymru a'r Alban ar gae'r Vetch. Roedd ei daid, Emlyn Davies, ar un amser yn aelod blaenllaw o dîm Llanberis. Enillodd ei ewythr Kevin Davies gap i Gymru dan 15 oed yn nechrau'r saithdegau.*

# ECO'R WYDDFA

**RHIF 60**
**MEHEFIN 1981**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Pont-rhythallt, Llanrug, (Caernarfon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun. (Penyllyn 438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515).
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (Llanbeirs 220)
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant (Waunfawr 321). Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon 3776).
**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227).
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
**BETWS GARMON:** Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa, Brynrefail (Padarn 223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 550)
**DEINIOLEN:** Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 267)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn yr Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Penisarwaun.
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Waunfawr 355)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn, (Waunfawr 626).
**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug.
**TREFNYDD BUSNES:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

### Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg ar
**2 GORFFENNAF**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol erbyn **24 MEHEFIN** os gwelwch yn dda.

# Llythyrau

## AT ETHOLWYR GWYRFAI 4

*Carwn ddiolch i'r 1,078 a bleidleisiodd i mi yn etholiad y Cyngor Sir. Er i mi gynyddu'r bleidlais a chael mwyafrif sylweddol iawn yn Waunfawr a Chaeathro, doedd hynny ddim yn ddigon i mi droi'r fantol mewn ardaloedd eraill. Pan gofiwch ein bod yn brwydro yn erbyn clymblaid Dori - Llafur - Annibynnol - Ryddfrydol yna credaf fod y bleidlais yn un reit anrhydeddus, ac mi fuaswn yn falch o'r cyfle i gael cario baner Plaid Cymru i'r gad unwaith eto.*

*Cofion gorau,*
*Eurig Wyn*
*Y Frenni, Waunfawr*

## AT ETHOLWYR GWYRFAI 5

*Annwyl Gyfeillion,*
*Hoffwn ddiolch i'r 1201 o bobl yr ardal a'm cefnogodd yn yr etholiad i fynd ar Gyngor Gwynedd. Cefais groeso cynnes iawn i gartrefi pawb bron, ac yr wyf yn diolch i chwi am y croeso hwn. Gwnaeth y derbyniad hwn y gwaith o ganfasio yn waith pleserus. Hefyd diolchaf i'r llu o bobl a oedd yn awyddus i'm helpu mewn amryw ffyrdd. Yr oedd yn beth calonogol dros ben gweld rhai pobl yn fodlon dod o bell i ddefnyddio eu hawl i bleidleisio.*

*Diolch i chwi oll am eich ymddiriedaeth a gwnaf bob ymdrech i gyfiawnhau hyder yr etholwyr ynof.*

*Yn bur,*
*Pat Larsen,*
*Llygad yr Haul,*
*Penisa'rwaun.*

## PEIRIANNAU AMAETHYDDOL

Annwyl Olygydd,

Un nod gan yr Adran Amaethyddiaeth a Bywyd Gwledig yn Sain Ffagan fu sefydlu casgliad o beiriannau amaethyddol a wnaethpwyd yng Nghymru. Eisoes, yn wir, llwyddwyd i hel nifer sylweddol, gan ein galluogi i astudio datblygiad y peiriannau hyn o ardal i ardal a hefyd i werthfawrogi ein dyled i grefftwyr, peirianwyr a gofaint Cymru. Erys rhai mannau gwag yn y casgliad, fodd bynnag, a byddem yn dra diolchgar pe baech yn medru cyhoeddi y rhestr ganlynol o beiriannau na sydd gennym ar hyn o bryd, gan obeithio y gall eich darllenwyr ein cynorthwyo i leoli rhai ohonynt.

Dafydd Roberts
Cynorthwydd Ymchwil
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd

**Dyma'r rhestr:**
**Jones, Esmor Works, Rhosesmor, Yr Wyddgrug** – Minor, Rhif 11, Byrnwr Codi, 'Invicta', 'Lion', Byrnwr codi, gydag injan. Llwythwr tail, Gwasgarydd tail, Ciciwr gwair, Combein.
**John Williams a'i Fab, Phoenix Iron Works, Rhuddlan** – Peiriannau lladd a medi gwair, Rholer, Clodiwr/gordd clobos, Gwaith ceffyl, Sgyfflar, Injan sgrapio/sleisio, Melin tafell borthi/melin malu cêc, Peiriant torri lawnt, Injan oel.
**Powell Bros. a Whitaker, Wrecsam** – Peiriannau lladd a medi gwair, Injan torri gwellt, Injan sgrapio/sleisio, Melin tafell borthi/melin malu cêc, Rholer, Gogor gwahanu tatws, Dril hau maip/swedj, Injan Oel.

## R.H. NID R.E. YW'R AWDUR

Annwyl Syr,

Derbyniais ddau bennill gan y diweddar Barch J.P. Davies tua 15 mlynedd yn ôl. Hoffais y ddau bennill yn fwy na allaf ddweud. Rwyf wedi eu hysgrifennu i sawl un o'm cyfeillion a darfu iddynt ymddangos yn Eco'r Wyddfa. Rwyf wedi ceisio cael eu hargraffu i arbed i mi eu hysgrifennu a mwy na hynny rwyf wedi ceisio eu cyfieithu i'r Saesneg. Ond nid ydynt yn odli fodd bynnag. Buaswn yn falch iawn o dderbyn cyfieithiad Saesneg ohonynt.

Ar y penillion a gefais dywedir mai R.E. Jones Llanberis yw'r awdur ond cefais air gan un o Abertawe oedd wedi eu gweld yn yr Eco yn dweud mai'r diweddar R.H. Jones Wallasey oedd yr awdur.

Yn gywir iawn,
Mrs M.M. Williams,
Orwig House
(ar hyn o bryd)
Pontrhythallt,
Llanrug.

Cystal inni atgoffa'n darllenwyr o'r ddau bennill y sonia Mrs Williams amdanynt. Tybed oes rhywun all ei helpu gyda'r cyfieithiad i'r Saesneg?

**RHANNA DY BETHAU GORAU**

**Rhoi wnaeth y weddw anghenus;**
**Rhoi wna y da o hyd.**
**Rhoi yr un fath â'r ffynnon;**
**Rhoi o waelod y galon;**
**Rhoi – a chael yr un pryd.**
**Y ffordd i gadw trysor yw**
**Ei roi yn ôl ar allor Duw.**

**Rhanna dy bethau gorau,**
**Rhanna a thi yn dlawd;**
**Rhanna dy wên a'th gariad,**
**Rhanna dy nefoedd, frawd.**
**Rhyw nefoedd wael yw eiddo'r dyn**
**Fynn gadw'i nefoedd iddo'i hun.**

## YSGOL BRESWYL MERCHED Y WAWR

Bydd ein Hysgol Breswyl flynyddol ar Fedi 18, 19 ac 20 yn Aberystwyth. Y mae lle yno i 50 yn Neuadd Pantycelyn ac i 250 yn Neuadd Penbryn, o 6.30 nos Wener tan 1.00 y Sul. Bydd ein gweithgareddau yn Theatr y Werin.

Agorir yr Ysgol gydag adloniant gan rai o ganghennau Ceredigion ar ffurf drmaâu seiliedig ar weithiau Kate Roberts. Fe gofiwch ei bod hi, eleni, yn dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed a phriodol iawn ydyw i fudiad merched ddathlu hynny a chofio am ei gwaith aruthrol o wych. Mae eleni'n flwyddyn ryng-genedlaethol yr Anabl a phriodol iawn eto yw ein bod yn rhoi sylw iddyn nhw. Fore Sadwrn, felly, y mae tri yn dod atom – Frank Letch (Llanuwchllyn), Arthur Rowlands (Caernarfon) a Ron Davies (Aberaeron), pob un ohonynt yn dioddef mewn rhyw ffordd neu'i gilydd ond sydd wedi goresgyn eu hanabledd ac yn byw bywyd llawn. Daw tri, hefyd, i sôn am eu gwaith gyda'r Anabl – Ifanwy Williams, Erilys Davies a'r Parch E.D. Morgan. Yn ystod y prynhawn bydd yr Is-bwyllgor Celf a Chrefft yn rhoi arddangosfa o nyddu, trefnu blodau a llwyfannu. Bydd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cwrdd hefyd. Nos Sadwrn bydd Cymanfa Ganu ar batrwm y llyfryn 'Canu Cenedl.'

Fore Sul daw gwraig arbennig iawn i siarad â ni yn ein gwasanaeth crefyddol, sef Mrs Myriel Davies, Swyddog Rhanbarthol y Cenhedloedd Unedig. Er ei bod yn brysur dros ben y mae'n ystyried dod atom ni yn achlysur pwysig.

Y tâl am yr Ysgol yw £25 (Blaendal £10 erbyn diwedd Mai a'r gweddill erbyn canol Gorffennaf). Os ydych am ystafell ar y llawr isaf rhowch wybod ar eich ffurflen gais.

Gwybodaeth ychwanegol oddi wrth:
**Mair Elvet Thomas, Tre Llywelyn, 26 Gerddi Plasturton, Caerdydd CF1 9HF.**

Cofiwch, hefyd, am ein safle yn Llanelwedd a'n pabell yn yr Eisteddfod Genedlaethol.




**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
**Ffôn: LLANBERIS 232**

**BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS**

**Hefyd gwerthwyr CALOR GAS**

# WAUNFAWR

CARNIFAL WAUNFAWR 1981
Gorffennaf 3-11

Dyma grynodeb o weithgareddau'r Carnifal am yr wythnos. Mae'r gweithgareddau'n agored i bawb gymryd rhan ynddynt. **Nos Wener, Gorffennaf 3** – Seremoni Coroni'r Frenhines Wendy, yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch. **Nos Sul, Gorffennaf 5**: Cymanfa Ganu yn Eglwys Sant Ioan am 7.30 yng nghwmni Parti Lleu gyda Mr E. Wyn Jones, Waunfawr yn arwain y Gymanfa. **Nos Fawrth Gorffennaf 7**: Mabolgampau. **Nos Fercher, Gorffennaf 8**: Gemau Giamocs (lle dewisir tri thîm o'r pentref i gystadlu yn erbyn ei gilydd). **Nos Wener, Gorffennaf 10**: Pêl-droed 5-bob-ochr. **Dydd Sadwrn Gorffennaf 11** – Y Carnifal gyda 'Slim' o'r 'Awr Fawr' yn beirniadu'r cystadlaethau Gwisg Ffansi a'r gystadleuaeth Fabanod. **Nos Sadwrn, Gorffennaf 11** – Swper y Carnifal yng Ngwesty Plas Tan Dinas, Dinas Dinlle yng nghwmni **Traed Wadin.**

Bydd manylion pellach i'w cael am y gweithgareddau hyn mewn posteri a thaflenni a fydd ar gael yn y siopau lleol yn nes at y dyddiad.

YR YSGOL FEITHRIN – Mae'r Ysgol Feithrin yn dathlu'r Ŵyl Feithrin eleni hefo 'Bore Agored' yn yr ysgol yn Festri Croesywaun ar fore dydd Mawrth 9 o Fehefin rhwng 10-11 o'r gloch. Dewch draw am baned a sgwrs a chael gweld y plant bach wrth eu gwaith.

Hefyd ar Fehefin 10 fe fydd y plant bach yn mynd i Gaernarfon i weld Cwmni Bara Caws yn perfformio fel rhan o'r Ŵyl Feithrin.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mr F.A. Thomas, Haulfryn ar golli ei chwaer yn Ffrwd Cae Du, Bontnewydd.

LLONGYFARCHIADAU i Llinos a John, 3 Rhes Glyn Afon ar enedigaeth mab, John Gareth, brawd bach i Bethan.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion cynhesaf am adferiad buan iawn i Mr John Griffiths, Darwayne, 18 Stad Tŷ Hen.

ADREF O'R YSBYTY – Croeso adref i Mrs Houghton, Midsummer's Eve a Kristy Jones, Cynefin. Gobeithio eu bod yn gwella erbyn hyn.

YR YSGOL – Trwy wyliau'r Pasg bu'r plant yn brysur yn casglu enwau noddwyr i'w Hymdrech Noddi Tasgau. Cawsant lwyddiant mawr, a chasglu oddeutu £480. Yr oedd un eneth 6 oed, Avril Charge, wedi casglu £43 ei hunan, ac oherwydd hyn, cafodd y fraint o drosglwyddo siec o £100 tuag at y Ganolfan Newydd i'r Swyddogion. Dymuna'r Prifathro a'r Athrawon ddiolch yn gynnes iawn i bawb am noddi'r plant.



**YMDRECH ARBENNIG**
*Avril Charge hefo'i phrifathro, Leslie Jones yn cyflwyno siec o £100 i Eurig Wyn, Cadeirydd Ymgyrch Canolfan Waunfawr a thrysorydd y gronfa, Mr Edgar Owen.*

Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol cafwyd Gwasanaeth Arbennig gan y plant. Yr oedd y ficer, y Parch Trefor Jones yn bresennol a chafwyd anerchiad pwrpasol ganddo. Trosglwyddwyd siec o £10 iddo, tuag at y Gronfa, o gasgliad wythnosol y plant.

MERCHED Y WAWR – Prynhawn Sadwrn Ebrill 11 cynhaliwyd Ffair Wanwyn Merched y Wawr Rhanbarth Arfon yn Neuadd y Fyddin Caernarfon gyda'r elw'n mynd at Flwyddyn Gydwladol yr Anabl. Gwnaeth Cangen y Waunfawr elw o £108 tuag at yr ymdrech. Diolch i'r aelodau fu'n cynorthwyo yng Nghaernarfon, ac i bawb am eu rhoddion. Dymuna'r gangen ddiolch i Mr Lleufer Pritchard, a roddodd stoc o garpedi i'w gwerthu yn y Ffair. Dan ofal Mrs Mary Vaughan Jones, hon a ddaeth â £90 i'r coffrau. Dyma stondin brysura a mwyaf proffidiol y prynhawn.

Nos Iau Ebrill 30 cafwyd noson hynod o ddiddorol ac addysgiadol ar rai agweddau o Feddygaeth gan Dr Huw Roberts. Estynnodd y Llywydd, Mrs Rhian Ellis, groeso cynnes i Dr Roberts i'n plith a diolchwyd iddo gan un o ffyddloniaid y syrjeri, Mrs Irene Roberts. Paratowyd y te gan Mrs Greta Hughes a Mrs Oliver Owen, ac enillwyd y raffl a roddwyd gan Mrs Olwen Owen gan Mrs Cadi Jones.

Nos Iau Mehefin 25 byddwn yn teithio i Blas Tan y Bwlch, Maentwrog. Bydd cyfle i gerdded drwy'r gerddi a chael cipolwg ar rai o ystafelloedd y Plas cyn gloddesta ar ginio - bwffe blasus. I dreulio'r cyfan, cawn eistedd i fwynhau darlith gyda sleidiau ar Blas Tan y Bwlch a'r Parc Cenedlaethol.

Pris y bwyd fydd £4 - £4.50, gyda phris y bws yn ychwanegol. Enwau i Luned Roberts, Sŵn y Gwynt, Rhian Ellis, Glyn Awel neu Olwen Williams, Llidart Wen os gwelwch yn dda.

*EISTEDDFOD GADEIRIOL GLANNAU MERSWY*
*Mawrth 13 1983*

*Y mae Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Gadeiriol Glannau Merswy yn falch iawn o gyhoeddi eu bont yn noddi cystadleuaeth arbennig ar gyfer Eisteddfod 1983.*

**Disgrifiad**
Casgliad o tua 100 i 150 o emynau achlysurol

**Cyfarwyddyd**
Gellir cynnwys emynau a geir mewn gwahanol gasgliadau ynghyd ag emynau nas cyhoeddwyd o'r blaen. Awgrymir y dylai'r casgliad gynnwys emynau i'w defnyddio ar y prif wyliau Cristionogol a'r prif ordinhadau, yn ogystal â rhai ar gyfer Suliau arbennig a dathliadau etc. Gobeithir gyhoeddi'r casgliad buddugol neu gyfuniad o'r goreuon. Os y dymuna'r cystadleuydd gall awgrymu tonau addas er mwyn hwyluso'r cyhoeddi.

**Gwobr**
£100 (os y cyhoeddir cyfuniad rhennir y wobr yn gyfrannol)

**Beirniad**
Y Parch W. Rhys Nicholas, BA., BD., Porthcawl

**Amodau**
1. Y mae pawb sy'n cystadlu yn derbyn y rheolau a ganlyn.
2. Y mae dyfarniad y Beirniad yn derfynol
3. Y mae'r gystadleuaeth yn agored i bawb
4. Rhoir hyd at 1af Awst 1982 i dderbyn ymgeision
5. Dylid rhoi pob emyn ar ddalen ar wahân, gan nodi enw'r awdur a'r ffynhonnell
6. Dylid danfon y casgliadau at Dr Hywel Morris, 5 Welbeck Avenue, Lerpwl 18
7. Dylid amgau mewn amlen, dan sêl, enw llawn a chyfeiriad yr ymgeisydd a dylid ysgrifennu ffugenw ar du allan i'r amlen
8. Er y gobeithir cyhoeddi'r casgliad(au) buddugol, nid oes ymrwymiad ar ran Pwyllgor yr Eisteddfod i wneud hynny.

**HANES MEWN POTELI?**



Wrth feddwl am ddarganfod hen boteli mae'r rhan fwyaf ohonom yn cysylltu'r syniad yn syth â thraeth rhyw ynys bellennig, ond o hyn ymlaen mae'n debyg y bydd Dilwyn Green, Rhos Wian, Penisarwaun, yn meddwl yn wahanol. Tua thair wythnos yn ôl roedd Dilwyn allan yn chwilota o gwmpas y 'Waun' Penisarwaun, tu ôl i'w gartref. Mae gweithwyr y Bwrdd Dŵr wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn gosod pibellau dŵr newydd i lawr yn y gors, ac mae eu peiriannau mawrion wedi symud a chodi'r pridd wrth agor y tyllau ar gyfer y peipiau. Mae'n weddol amlwg bellach nad pridd yn unig a godwyd ganddynt, oherwydd daeth Dilwyn o hyd i nifer o boteli hynafol yng nghanol y llaid. Mae'r poteli wedi'u gwneud o wydr eithriadol o dew.

Beth oedd cynnwys y poteli tybed? Sut y daethant i gael eu claddu yn y gors? Yn ogystal â'r poteli daeth Dilwyn o hyd i ddarnau o lestri hefyd.

Oedd yna unrhyw gysylltiad rhwng y poteli a'r dŵr o Ffynnon Cegin Arthur? Mae'n ddiddorol iawn dyfalu. Tybed a oes unrhyw un o blith darllenwyr yr Eco yn gallu taflu goleuni ar hyn i gyd?

DIOLCH A CHROESO – Bu Mrs Jones, Ogwen yn ffyddlon iawn i'r Eco gan ei ddosbarthu bob mis o'i sefydlu. Diolch yn fawr iddi am ei gwaith diflino ar hyd y blynyddoedd. Mr Hefin Pritchard fydd o hyn allan yn dosbarthu'r papur yn ardal Mrs Jones. Croeso cynnes iddo i'n plith.

J.M. JONES A'I FAB
GWAITH CERRIG BEDDAU
A THREFNWYR ANGLADDAU
DEINIOLEN
Ffôn: Y FELINHELI 670124

E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis
Ffôn 202
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

UN O FFERMYDD UCHAF CYMRU

## CARNEDDI, BEDDGELERT



Dyma'r darlun enwog a ymddangosodd yn y Cymro, Medi 14, 1945. Gofynnodd Miss Mair Iola Rowlands ac eraill am ei gael yn Eco'r Wyddfa. Fel hyn yr ysgrifennodd John Aelod Jones (Mr John Roberts Williams) o dan y darlun yn y Cymro.

*"Dyma stori fwy trist na thristwch . . . am Richard a Catrin Griffith yn mynd i Loegr wedi mwy na phedwar ugain mlynedd o Gymru. Gwell gan y ddau fod heb y MR na'r MRS o flaen eu henwau: mwy adnabyddus yw Richard Griffith fel Carneddog.*

*"Teithiais drwy Hydref Eryri i ffarwelio â hwy: heibio i'r coed a than y creigiau: dros bont Aberglaslyn: trwy bentref Nanmor (tair sir ar ddeg sydd yng Nghymru, a Nanmor gyda hynny medd y gair).*

*"O'r ffordd fawr i'r lonydd bach: o'r lonydd bach i'r ffordd sy'n arwain trwy'r caeau. I fyny ac i fyny. Yn uwch na thrafael modur a thrwy'r ffordd drol sy'n enbydus i drol, ac i'r Carneddi.*

*"Dyma un o ffermydd uchaf a mwyaf unig Cymru. Dim i'w weld oddi yno ond mynydd yn codi y tu hwnt i fynydd a mynydd y tu draw i hwnnw wedyn. Os edrych wnaf i'r dwyrain pell, os edrych wnaf i'r de — mynyddoedd.*

*"Llinellau o waith Eifion Wyn yn gwibio i'r cof — "Mae gennyf fil o ddefaid" . . . "cynefin y carlwm a'r cadno". . .*

*"Tawelwch, Cymreigrwydd, aruthredd. Dyn a natur yn un.*

*"Y mae Carneddog a Catrin Griffith yn rhan o Eryri ei hun. Ni raid edrych ar lyfr rhent y Carneddi sydd ym meddiant y teulu ers 1758 i weld hynny.*

*"Ond yn awr mae'r fferm wedi ei gwerthu — i Sais. Mae'r Sais yn dod i fyw i'r Carneddi. Mae'r hen Gymro a'r hen Gymraes annwyl yn mynd i fyw i Loegr.*

*"Bellach y maent wedi cychwyn a'r golwg olaf ar y mynyddoedd wedi ei losgi'n atgof tragywydd ar eu heneidiau.*

*"A phell yw'r ffordd i Hinckley — dair milltir ar ddeg o dref Leicester lle mae'r ddau'n cartrefu mwyach gyda'u mab a'i briod.*

*"Mae'r llyfrau a'r llawysgrifau a gasglodd mor ddygn wedi eu chwalu a'u gwerthu: y golofn a ysgrifennodd mor hir i'r 'Genedl' ac i'r 'Herald' wedi eu gadael: y diwylliant mynydd y casglodd ei fanion ohono i'w feddwl, i'w lyfrau, i ysgrifau lawer y galwodd O.M. Edwards ac eraill amdanynt wedi llithro o'r golwg.*

*"Yr oedd yn rhaid mynd. Bu trychineb mawr yn y mynyddoedd. Collodd ei fab y meddyliodd y byd ohono.*

*"Aeth Catrin ac yntau'n hen: yn rhy hen i ymlid y defaid cyflym ac i ddringo'r llwybrau serth.*

*"Mewn dagrau a thorcalon, ffarweliwyd.*

*"Gyhyd ag y cofiaf ddim, erys un darlun gyda mi.*

*"Hen Gymro a hen Gymraes yn sefyll ynghyd gerllaw'r cartref ac yn edrych am y tro olaf, dros y bryniau pell.*

*"O na bai fy mhen yn ddyfroedd . . .*

### MYNWENT BEDDGELERT

Bu farw Carneddog, Mai 20, 1947. Claddwyd ef ym mynwent Beddgelert. Dyma'i feddargraff.

**Hon yw llannerch hun y llenor, – noswyl**
**Hanesydd hoff Nantmor:**
**Erys ei waith maith fel môr,**
**Draw i oesoedd yn drysor.**

**Glan Rhyddallt.**

Bu farw Catrin, gweddw Carneddog ar y 13 o Chwefror 1951 a chladdwyd hi yn yr un bedd ag ef, a'r cwpled isod sydd ar y garrreg.

**Ym mhob modd fe haeddodd hi,**
**Fam dyner gof amdani."**

**Glan Rhyddallt.**

Bu enwogion Cymru yn dringo'r mynyddoedd a'r creigiau uchel i'r Carneddi: O.M. Edwards, Glaslyn, Tryfanwy, Iolo Caernarfon, Glan Rhyddallt, Myrddin Fardd, Tegfelyn, Meuryn, Eifionydd, Anthropos, Alafon, Eifion Wyn, Shankland, Gwilym Deudraeth ac eraill. Yr oedd Bob Owen, Croesor yn gymydog agos iddo. Bydd cof am Carneddog a Chatrin fyw yn hir yng Nghymru.

# BETHEL

YSGOL FEITHRIN – Fel rhan o Ŵyl Feithrin y mudiad rhwng yr 8-15fed o Fehefin mae pwyllgor Ysgol Feithrin Bethel yn trefnu Gyrfa Chwist yn y Neuadd yn dechrau am 7 o'r gloch ar nos Fawrth, Mehefin 9.

Ar fore Llun, Mehefin 29 rhoir gwahoddiad i famau'r plant sy'n dod i'r Ysgol Feithrin ym mis Medi ddo i'r Neuadd am 10 o'r gloch. Bydd y plant a'r mamau yn cael cyfle i weld yr Ysgol Feithrin wrth ei gwaith.

I ddiweddu'r tymor trefnwyd trip ar drên bach Llyn Padarn, Llanberis – Gorffennaf 2.

DIOLCH – Dymuna Carys Hughes, Ymwelydd Iechyd, ddiolch o galon am y rhodd a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO – Yn frawychus o sydyn yn ei gartref ar Ebrill 29 yn 32 oed bu farw Mr John Gwyndaf Birkett, Bryn Myfyr. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i weddw, Colette, ei fam a'i deulu yn eu hiraeth.

Yng nghartref ei nai yn Lerpwl ar Fai 5 bu farw Miss Mair Eirianwen Parry, Groeslon. Mae'n cydymdeimlad â theulu Miss Parry yn eu profedigaeth.

CYFLAWN AELODAU – Yn ddiweddar derbyniwyd pedwar o blant y Cysegr yn Gyflawn Aelodau gan y gweinidog, y Parch W.R. Williams. Dymunir pob bendith i Tegwen Williams, Granville, Desmond a Noel Hughes, Cae Metta a Dewi Jones, 7 Bro Rhos fel aelodau o'r eglwys.

LLONGYFARCHIADAU – i blant Ysgol Sul y Cysegr ac i blant Ysgol Sul Bethel ar eu llwyddiant yn arholiadau Cymanfa'r ddwy Eglwys yn ddiweddar. Mae canlyniadau llawn Cymanfa Cylch Deiniolen i'w gweld gyda'i gilydd mewn colofn arall.

MERCHED Y WAWR – Nos Wener, Mehefin 5 cynhelir Noson Goffi dan nawdd Merched y Wawr yn y Neuadd. Estynnir groeso cynnes i bawb.

DAWNFWYR MORRIS – Nos Wener, Mehefin 12 bydd dawnswyr Morris yn cynnal taith gerdded noddedig. Bydd yr elw o'r daith yn help i dalu costau'r dawnswyr sydd eleni wedi trefnu i fynd i garnifal Llandegfan ar 11 Gorffennaf i Lanberis a Chaernarfon ar Gorffennaf 18 ac i Gwm-y-glo ar Awst 22. Hyn yn ogystal ag ymddangos yng ngharnifal Bethel ar Gorffennaf 27.

DIOLCH – i aelodau Merched y Wawr am eu gwaith yn plygu Eco mis Mai. Roedd y cwbl wedi eu plygu cyn hanner awr wedi wyth. A all rhywun wella ar hyn?

LLONGYFARCHIADAU – i'r Parch Richard Jones ar gael ei ail-ethol i gynrychioli'r ardal ar y Cyngor Sir yn yr etholiad ar Fai 7.

CERDDOROL – Llongyferchir wyth o ddisgyblion Ysgol Gynradd Bethel ar eu llwyddiant mewn arholiadau canu'r Recorder dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain: Gwenan Davies, Lynne Hardwidge, Tracey Jones, Rhian Parry, Sandra Roberts, Nicola Wallis, Linda Williams a Meinir Dauncey Williams. Llwyddodd yr wyth ohonynt i ennill tystysgrifau anrhydedd.




## AR WERTH

**Gwlâu 'bunks', pren golau, maint 2 droedfedd 6 modfedd, matresi 'spring interior', mewn cyflwr da iawn. £50. Waunfawr 345.**

**Beic i hogyn 6-9 oed. Beic i eneth 6-9 oed. Beic dyn. Ffôn: Y Felinheli 670861.**

**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**
*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# LLANRUG

DIOLCH – Dymuna Mrs D. Wyn Edwards, Cilan, Glanffynnon ddiolch o galon i gymdogion a chyfeillion Llanrug a'r cylch am eu caredigrwydd a'u ffyddlondeb iddi ar ôl iddi gael damwain.

ARHOLIADAU YSGRYTHUROL – Dan nawdd Cymanfa Ysgolion Dosbarth Caernarfon llwyddodd Dianne a Sharon Thomas a Jean Roberts, Bro Rhyddallt i ennill gwobrau. Hefyd, bydd Sharon yn cael ei gwobrwyo yn y Cyfarfod Misol. Ein llongyfarchiadau i'r tair, sy'n aelodau o Ysgol Sul Pontrhythallt.

O Ysgol Sul Capel Mawr bu Susan Lloyd Jones, Christine Jordan, Caryl Pugh a Nia Wyn Jones yn llwyddiannus yn Arholiad Ysgrifenedig y Gymanfa, a bydd Susan, Nia ac Adrian Wynne Evans yn cael eu gwobrwyo yn y Cyfarfod Misol. Ein llongyfarchion iddynt hwythau.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cynhaliwyd cyfarfod ddydd Iau, Mai 14 o dan arweiniad Mrs J. Davies, Plas Gwyn a Mr J.G. Jones, 21 Talybont, yn absenoldeb Mr C. Williams, Tŷ'r Ysgol oherwydd gwaeledd.

Y testun oedd 'Fy Newis I' a chafwyd hanes diddorol rhai hen gymeriadau ynghyd â detholiad o'u hoff recordiau. Talwyd diolch gan Mrs J. Butler a Mrs Nesta Pritchard.

Drwg gennym ddeall fod Mrs Hughes-Jones, Sŵn-y-Gwynt yn yr ysbyty ar ôl damewain. Dymunwn iddi adferiad buan, a hefyd i Mr Emrys Owen, 9 Hafan Elan sydd yn cwyno.

Da gennym ddeall fod Mrs Annie Parry, 3 Bryn Coch adref o'r ysbyty a'i bod ar hyn o bryd yn aros gyda Mrs Ena Jones, Bod Ifor.

Rhoddwyd y te gan Miss M.G. Roberts, Ganllwyd, Mrs M. Spratt, Glan Llyn, Miss A.C. Jones, Glan Llyn, Mrs E. Howell, Bryn Elert a Mrs J. Parry, Morannedd. Enillwyd y raffl gan Mrs J. M. Jones, 21 Talybont. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch D. Gwynfor Williams.

BEDYDD – Bore Sul, Mai 3 yn y Capel Mawr bedyddiwyd Iona Wyn, merch fach Mr a Mrs Anthony Williams, Antmor, Bryn Moelyn, gan y gweinidog y Parch W.O. Roberts.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR – Cynhaliwyd noson goffi nos Iau, Mai 7. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs M. Evans, Lloc. Anfonwyd cofion at chwiorydd a oedd yn wael gartref ac yn yr ysbytai. Penderfynwyd anfon rhodd ariannol i groesawu Côr Bryniau Casia i Gaernarfon. Derbyniwyd rhoddion gan nifer o chwiorydd a fethai fod yn bresennol a diolchwyd iddynt gan y llywydd.

Rhoddwyd y coffi gan Mrs M. Lewis, Madryn House a Mrs G. Jones, 7 Hafan Elan a diolchwyd iddynt gan Mrs Nancy Roberts, Annedd Wen. Hi hefyd oedd yn llywyddu. Bydd y noson goffi nesaf ar Fehefin 4 am saith o'r gloch.

CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL PONTRHYTHALLT – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gymdeithas uchod brynhawn Iau, Ebrill 31. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs N. Roberts, Annedd Wen. Anfonwyd ein cofion at chwiorydd oedd yn wael gartref ac mewn ysbytai. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Pritchard, Glanfa, Mrs M. Jones, Bron Wylfa a Mrs C. Owen, 9 Hafan Elan, a diolchwyd iddynt gan Mrs N. Owen, Trigle.

GWELLHAD BUAN – I Dylan, mab Mr a Mrs Goronwy Huws, Eithinog, Afon Rhos ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol.

I Catherine, merch fach Mr a Mrs John Wyn Griffith, Bod Elwy ar ôl damwain.

Deallwn bod Mrs Sidney Humphreys, 16 Bro Rhyddallt, yn gwella ar ôl ysbaid yn yr ysbyty yn Lerpwl.

Dymunir adferiad iechyd i Mrs Annie Parry, Tai Bryn Coch, sydd wedi dychwelyd o'r ysbyty ac yn aros ar hyn o bryd yn Bod Ifor, Tai Rhythallt.

PRIODAS – YN Eglwys Crist, Caernarfon ar Fai 2 priodwyd Mr John Dilwyn Parry-Jones, mab Mr a Mrs M. Parry Jones, Storfa a Modurdy Groeslon Marc, Llanrug a Miss Sherry Walters, merch Mr a Mrs T. Walters, 91 Cae Mur, Caernarfon gan y Parch E. Trefor Jones. Ein llongyfarchion a'n dymuniadau da iddynt.




DIOLCH – Dymuna Sherry a Dilwyn ddiolch o galon i berthnasau a chyfeillion am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen, nos Fawrth, Mai 12, gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Cafwyd adroddiad boddhaol gan yr ysgrifennydd a'r trysorydd. Yr oedd rhif yr aelodaeth 1980-81 yn 77. Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith gan Mrs Megan Roberts. Penderfynwyd rhoddi cyfraniad o £25 i'r Ysgol Feithrin, a £25 i bwyllgor lleol y methedig, a £10 at Eisteddfod y pentref.

Dyma'r swyddogion am y tymor nesaf. Llywydd: Miss Phyllis Ellis, Is-lywydd; Mrs Ann Llwyd Elis Jones, Ysgrifennydd: Mrs Eirlys Pierce, Is-ysgrifennydd: Mrs Margaret Parry, Trysorydd: Miss Nia Humphreys, Is-drysorydd: Mrs Ann Evans, pedair aelod newydd i'r pwyllgor: Mrs N. Lovatt, Mrs Myfi Roberts, Mrs J. Davies a Mrs Gwenda Roberts,

Mynegwyd gofid bod ein is-ysgrifennydd, Mrs Heulwen Jones yn gadael yr ardal a dymunwyd yn dda iddi a'i theulu yn y De. Dosbarthwyr y Wawr: Tanycoed: Mrs Megan Williams, Pontrhythallt: Mrs Amy Wh. Smith, Llanrug: Mrs Margaret Jones a Mrs Joyce Jones, Penisa'rwaun: Mrs Jean Roberts. Gohebwyr y Wasg: Miss Megan Humphreys a Mrs G.M. Jones. Yr oedd elw'r Ffair Wanwyn yng Nghaernarfon yn £560 a diolchwyd i'r aelodau am eu cyfraniadau. Dymunwyd yn dda i ferch fach Mrs Roberta Griffith ar ôl ei damwain. Rhoddodd MissMegan Humphreys adroddiad manwl o'r Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth, lle y gwnaed penderfyniadau ar faterion cyfoes, e.e. gwrthwynebu arfau niwcliar, diweithdra, sefyllfa dŵr yng Nghymru a'r tâl amdano.

Bydd Ysgol Breswyl yn Aberystwyth o nos Wener, Medi 18 hyd bnawn Sul, Medi 20. Tâl y penwythnos yw £25 – £10 i'w dalu erbyn dechrau Mehefin. Bydd taith y gangen ar Fehefin 9. Enwau i Eirlys Pierce a Heulwen Jones cyn diwedd Mai (gweler y posteri). Diolchwyd am y te gan Miss Nia Humphreys.



MARW – Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Albert Edward Howel yn ei gartref Bryn Elert ar Fai 17. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Mrs Ellen Howel yn ei phrofedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU – I Mrs Heulwen Jones, Sycharth, Bryn Moelyn ar ei phenodiad yn Bennaeth yr Adran Gymraeg, Ysgol Gyfun Tregŵyr.

CYDYMDEIMLO – Mae ein cydymdeimlad yn ddwfn iawn â Mr a Mrs Orwig Roberts, Elidir View ar farwolaeth mam Mr Roberts. Cyn symud i gartref ei mab, trigai Mrs Roberts yn Ship, Pontrhythallt. Roedd yn aelod gwerthfawr o Eglwys St Helens, Penisa'rwaun.

Cydymdeimlir hefyd â Mr Pierce Jones, 49 Bro Rhyddallt a'r teulu, un eu profedigaeth o golli ei chwaer, Malan yn Lerpwl.

Brawychwyd y stad ddydd Mercher, Ebrill 29, o glywed am farwolaeth sydyn mab Mrs B. Jones, 11 Hafan Elan yn 32 mlwydd oed. Y mae ein cydymdeimlad yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth chwerw.

NEWYDDION O HAFAN ELAN

Y GANOLFAN – Nos Iau, Mai 14, treuliwyd noson hynod o difyr yng nghwmni y gŵr a'r wraig wadd, y Parch a Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy. Ar ôl lluniaeth ysgafn wedi ei ddarparu gan Mrs Dilys Jones, difyrrwyd ni gan y Rheithor gydag amrywiaeth eang o eitemau ar y delyn; hefyd darllenodd ddarnau o farddoniaeth Cynan.

Llywydd y noson oedd Mr Arthur Jones, Warden y Rheithor. Diolchwyd gan Mrs N. Williams. Rhif 4. Diweddwyd trwy gyd-ganu, 'Hen Wlad Fy Nhadau'.

DYMUNIADAU DA – 'Rydym oll yn dymuno'n dda i Mrs A. Griffiths, Rhif 3 sydd wedi mynd i gartref ei merch i Gaerfyrddin i dreulio'r haf.

BRYSIWCH WELLA – Mae Mrs Glenys Roberts, 2 Hafan Elan yn Ysbyty Môn ac Arfon. Anfonwn ein cofion ati, gan obeithio ei bod yn teimlo'n well. Anfonwn ein dymuniadau gorau i'r rhai sydd heb fod yn teimlo'n dda yn ddiweddar.

CROESO CYNNES – I Mrs M. Williams sydd wedi dod i fyw i Rhif 25, Hafan Elan.

AR WYLIAU – Croeso i'r ardal i Mr a Mrs Moi Parry, Peterborough, Canada. Dymunwn bob bendith iddynt yn eu bywyd priodasol. O Awstralia mae Mr Thomas Roberts, (Ty'n 'Rardd gynt). Croeso iddo yntau, ac hefyd i Mr a Mrs Hywel Jones, brawd Mrs Hannah Jones, Tai Bryn Coch, sydd ar wyliau o Canada.

UNDEB Y MAMAU – Bu cyfarfod o Undeb y Mamau yn y Rheithordy ym mis Mai ac arweiniwyd y gwasanaeth agoriadol gan Y Rheithor a Mrs Williams, y Rheithordy oedd yn llywyddu. Tynnwyd allan Raglen ar gyfer tymor 1981-82. Rhoddodd y Rheithor sgwrs ar sut i drefnu blodau a dangosodd sut i wneud y gwaith. Mrs Mai Davies, Bod Awel oedd y westai a chynorthwywyd hi gan Mrs Williams, y Rheithordy. Diolchwyd gan amryw o'r aelodau.

DAMWEINIAU – Drwg gennym am ddamwain a ddigwyddodd i Mrs Deiniol Wynne Edwards, Cilan, Glanffynnon ac i Mrs M. Douglas Jones, Tyddyn Elan yn ddiweddar. Da yw deall bod y ddwy yn gwella yn foddhaol. Y mae Mrs Hughes Jones, Sŵn y Gwynt hefyd yn gwella ar ôl damwain a ddigwyddodd iddi hithau hefyd.

FESTRI'R PASG – Cynhaliwyd Festri'r Pasg ar ddiwedd mis Ebrill o dan lywyddiaeth y Rheithor. Etholodd y Rheithor Mr Arthur Jones yn Warden iddo ei hun ac etholodd y bobl Mrs Stanley Jones yn Warden iddynt hwy. Ail etholwyd y Cyngor Plwyfol Eglwysig a derbyniwyd y Fantolen. Mr E.G. Owen, Talgwynedd, Cwm y Glo a Mr R.A. Roberts, 1 Bryn Gro, Cwm y Glo a etholwyd yn wardeiniaid dros Eglwys Sant Gabriel. Diweddwyd drwy weddi.

Y FYNWENT – Ni fu fawr o ymateb gan neb am y gwaith o dorri a thacluso Mynwent Eglwys Sant Mihangel. Os oes unrhyw un yn dymuno rhoi cais i mewn am y swydd anfoner at Y Rheithor os gwelwch yn dda. Diolchwn i Mr Eric Morris, Awelfryn, am ymgymeryd â'r gwaith o wagio'r biniau a chlirio ysbwriel o'r fynwent yn hollol wirfoddol. Y mae'r Rheithor a'r Wardeiniaid yn gwerthfawrogi'r gwaith yn fawr iawn.

YR YSGOL FEITHRIN – Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn fawr am y gefnogaeth i'r Helfa Drysor a gynhaliwyd yn ddiweddar. Derbyniwyd rhoddion tuag at yr achos gan nifer helaeth yn y pentref. Cafwyd cyfraniadau tuag at gronfa'r ysgol gan Gyngor Cymdeithas Llanrug, Cangen Merched y Wawr, Llanrug a Pharti Clychau'r Grug. Diolch yn fawr i bawb.

Bore Sadwrn, Mehefin 6 cynhelir Taith Feic Noddedig. Cychwynnir wrth ymyl Capel Pontrhythallt am 10 o'r gloch. Ceir ffurflenni gan Mrs Linda Shudlack, Trem Elidir, Minffordd neu Mrs Mair Huws, Cilmeri, Glanffynnon.

YN YR YSBYTY – Ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Mrs Eirian Roberts, 24 Glanffynnon sydd yn ddiweddar wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

ADREF O'R YSBYTY – Mae Dylan Fôn Hughes, Eithinog, Afon Rhos wedi dychwelyd adref o Ysbyty Dewi Sant, Bangor lle derbyniodd lawdriniaeth. Dymuna ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ac am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd.

Y CARNIFAL – Gweler yr hysbyseb ar dudalen 12.



# BRYNREFAIL

CLWB MAMAU – Daeth nifer o aelodau ynghyd yn Nhŷ Glas ar Mai 12, ac o dan hyfforddiant Liz Thomas cafwyd noson ddifyr lle bu pawb yn ceisio pwyso a sychu blodau i'w gosod ar luniau, tocynnau llyfr etc. Rhoddwyd y te gan Audrey Hasson a Phyllis Jones ac fe roddwyd anrheg y mis gan Shirley Roberts a enillwyd gan Jackie Jones.

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr mis Ebrill. Ebrill 3: 1. Glenys Jones, 2. Shirley Roberts, 3. Audrey Hasson. Ebrill 10 : 1. Colin Wager, 2. Vera Price, 3. Euronwy Roberts. Ebrill 17: 1. Pat Jones, 2. Betty Owen, 3. Priscilla Collins. Ebrill 24: 1. Jenny Hughes, 2. Sue Jones, 3. O.J. Williams.

CLWB NOFIO – Dalier sylw fod y clwb nofio yn ail gychwyn ar Fehefin 1 – y bws yn gadael y bont am 7.15 o'r gloch. Enwau i Carol Houston a Rhian Jones.

Y GYMANFA – Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Eglwysi Presbyteraidd, Dosbarth Deiniolen bnawn Sul, Mai 3, yng nghapel y Cysegr. Llongyferchir y canlynol o aelodau Ysgol Sul Brynrefail ar eu llwyddiant yn y gwahanol arholiadau : Yr Aholiad Llafar: Dan 5 oed, Marian Jones. Dan 6 oed: John Evans, Owain Gwyn a Nicola Houston. Dan 7 oed: Eira Evans a Kelvin Houston. Dan 9 oed: Maria Evans, Catrin Gwyn a Paula Walters. Dan 10 oed; Einir Gwyn, Caron Haf Jones, Glenda Walters a Joanne Evans. Dan 11 oed: Jacqueline Walters a Nerys Ann Williams. Dan 12 oed: Alwen Jane Jones. Gwobrwywyd tri pharti cyd-adrodd dan 9 oed, 11 oed ac 16 oed , gyda chanmoliaeth uchel. Yr Arholiad ysgrifenedig, Dosbarth dan 9 oed: Catrin Gwyn, Paula Walters a Maria Evans. Dan 11 oed : Einir Gwyn, Glenda Walters, Alwen Jones, Jacqueline Walters, Caron Jones, Nerys Ann Williams a Joanne Evans. Yr Arweinydd Cerddorol oedd Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed.

YR ARHOLIAD SIROL – Bu tair o aelodau'r Ysgol Sul yn llwyddinnaus yn Arholiad Sirol Henaduriaeth Arfon. Gwobrwywyd Catrin Gwyn yn y Dosbarth dan 9 oed ac Einir Gwyn a Glenda Walters yn y Dosbarth dan 11 oed mewn Cyfarfod o'r Henaduriaeth a gynhaliwyd yn Jerusalem, Bethesda, ddydd Sadwrn, Mai 16.

CERDDOROL – Bu'r canlynol o ddisgyblion Miss L.P. Roberts, Godre'r Coed yn llwyddiannus mewn Arholiadau canu'r piano dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain. Arholiad Rhagarweiniol: Einir Gwyn, Min y Nant, Cwm-y-glo (gydag anrhydedd). Gradd 1: Alison Mary Jones, Fron Gader, Cwm-y-glo (gyda theilyngdod); Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig (gyda theilyngdod) ac Elen Wyn Roberts, 7 Afon Rhos, Llanrug (gydag anrhydedd). Gradd 2: Nerys Ann Williams, Llwyncoed (gyda theilyngdod). Gradd 3: Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian ac Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig (gyda theilyngdod). Gradd 6: Ruth Lennon, Plas Tirion, Llanberis (gyda theilyngdod).

## DRAENOG



Galw timau pêl-droed Bethel, Llanberis a Llanrug. Os oes angen chwaraewyr profiadol arnoch erbyn y tymor nesaf, ceisiwch ddarganfod pwy o'r fro a fu'n chwarae mewn gêm arbennig ar gae yr Oval, Caernarfon yn ddiweddar. Dylai rhai o'r artistiaid hyn gael eu harwyddo am eu gwerth adloniadol yn unig, i ddiddori'r gwylwyr yn ystod egwyl hanner amser.

# CWM-Y-GLO



*Dyma Bwyllgor Cwm-y-Glo sy'n codi arian i gynnal gwaith ymchwil meddygol i afiechydon sy'n cloffi. Mae'r Pwyllgor mewn bodolaeth ers blwyddyn a hanner ac eisoes wedi codi dros £400.*

*Maent yn ceisio gwneud ymdrech arbennig yn 1981, sef Blwyddyn Ryngwladol Pobl Anabl. Rhaid rhoi sylw arbennig i anghenion y methedig a thrwy waith ymchwil ceisio lleihau eu nifer.*

*Nid oedd Mrs Dilys Sharp, y Cadeirydd, na Miss Mair Rowlands yn bresennol oherwydd salwch yn y teulu.*

*Mrs Margaret Werolle, ysgrifennydd; Mrs Moira Ellis, trysorydd; Mrs Enid Price; Mrs Marjorie Roberts; Mrs Eunice Yesso; Mrs Rhian Jones; Mrs Dorothy Jones.*

FESTRI'R PASG – Yn Festri'r Pasg a gynhaliwyd ddiwedd mis Ebrill etholodd y Rheithor Mr E.G. Owen, Talgwynedd yn Warden y Rheithor ac fe ddewiswyd Mr R.A. Roberts, 1 Bryn Gro yn Warden y Bobl. Fe ailetholwyd y cynrychiolwyr ar y Cyngor Plwyfol Eglwysig. Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro fydd ysgrifennydd yr eglwys. Derbyniwyd y fantolen am y flwyddyn fel un gywir. Y Rheithor oedd yn y gadair ac ef hefyd a agorodd y cyfarfod drwy weddi a diweddwyd drwy adrodd y gras.

EGLWYS SANT GABRIEL – Penderfynwyd gofyn am geisiadau am y swydd o ofalwr i Eglwys Sant Gabriel. Os oes rhywun a diddordeb yn y gwaith, anfoned at Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, Cwm-y-glo.

Drwg gennym orfod derbyn ymddiswyddiad Mrs C. Owen, Isfryn o fod yn ofalwr oherwydd gwaeledd. Anfonwn ein cofion ati a'n gwerthfawrogiad o'i llafur diflino a'i gofal am yr eglwys a hyderwn y bydd yn cael llwyr feddyginiaeth yn fuan iawn.

UNDEB Y MAMAU – Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan ddechrau Mai i dynnu allan raglen am dymor 1981-82. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Y Rheithordy. Arweiniwyd y gwasanaeth agoriadol gan Y Rheithor a chyfeiliwyd gan Miss Ceridwen Hughes. Darparwyd y te gan Mrs J.E. Watkins, Dolwen a Mrs M.W. Chick, Mairlys a diolchwyd iddynt gan y Rheithor. Diweddwyd trwy weddi.

# TAN-Y-COED

DYWEDDÏAD – Llongyfarchiadau i Miss Carys Williams, Bryn Hyfryd ar ei dyweddïad â Mr Trevor G. Dove, Manor House, Hampton Heath, swydd Caer. Gweithio gyda'r Heddlu yn Ellesmere Port y mae Miss Williams. Pob dymuniad da iddi hi a'i darpar ŵr.

GWAELEDD – Dymunwn wellhad buan i Mrs Nancy Jones, 6 Tai Bryngwyn a gymerwyd yn wael yn ddiweddar. Da deall ei bod yn gwella. Eraill sydd yn gwella ar ôl gwaeledd yw Mrs Ellis, 3 Tai Bryngwyn, Mr Dafydd Hughes, 1 Tai Trefor a Mrs Humphreys, Clawdd Llwyd.

Ein dymuniadau da a'n cofion atynt hwy ac at y rhai sydd wedi eu caethiwo yn eu cartrefi oherwydd llesgedd.

LLWYDDIANT – Yng Nghymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Caernarfon yn y Bontnewydd gwobrwywyd a ganlyn am ennill y wobr gyntaf yn yr Arholiad Llafar: Dan 4: Catrin Ann Williams, Dan 5: Jonathan Prys Williams, Dan 6: Mark Wyn Jones, Tudor Wyn Jones ac Aled Parry. Dan 7: John Elwyn Jones a David Richard Jones. Dan 8: Anwen Parry, Dan 9: Iona Pierce Roberts ac Wyn Parry. Dan 10: Alwena Roberts, Dan 11: Bethan Lewis Parry, Dan 13: Richard Roberts. Dros 18: Mrs Catherine Evans.

Llongyfarchiadau iddynt oll.


Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

**E.WILSON HUGHES**
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD



AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO



**BWSIAU ARFON**
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

# 06I90 – O CHWECH I NAW DEG!

Sylwch fod y teitl yn aros yr un fath hyd yn oed ar ei ben i lawr!

## TUDALEN I'R PLANT: HEN AC IFANC

Gan DYFRIN Y DEWIN



# GWAIR TAL NEU GOED GWAG?

Mae hen ddihareb o China yn dweud fod y planhigyn bambŵ yn bopeth i rai dynion, ac yn rai pethau i bob dyn. Mae'n cyfoethogi'r pridd, yn rhoi arfau i ddyn weithio â hwy, yn rhoi offerynnau i greu cerddoriaeth, yn rhoi teganau ar gyfer plant, a hyd yn oed yn rhoi arfau i ddyn ymladd â'i gyd-ddyn. Credir fod dros fil o wahanol ddefnydd i'r planhigyn gwerthfawr hwn. Yn ddiweddar, gallodd un gwyddonydd ddistyllu tanwydd ar gyfer injan diesel o'r planhigyn. Mae'n tyfu'n naturiol ymhob cyfandir ar wahân i Ewrop ac Antarctica, ond fe'i cysylltir fel arfer â de-ddwyrain Asia.

Un o nodweddian arbennig y bambŵ yw ei dyfiant cyflym. Gwyddonydd o Japan sydd wedi mesur record y byd, sef tyfiant o bedair troedfedd mewn pedair awr ar hugain. Mae'n debyg mai'r defnydd mwyaf cyffredin a wyddom ni amdano o goed bambŵ yw i wneud gwialen bysgota o'r math *split cane*. Roedd pobl China wedi darganfod sut i hollti a gludio rhannau o goed bambŵ a'i gilydd i wneud gwialen ymhell cyn geni Crist.


Nodwedd od arall ynglŷn â bambŵ yw'r ffaith eu bod yn blodeuo mor anaml; weithiau bob 30, 60 neu hyd yn oed 120 o flynyddoedd. Ac yn rhyfeddol, mae pob un planhigyn o'r un rhywogaeth yn blodeuo yn union yr un pryd, ym mha ran bynnag o'r byd y bo. Gall tymor blodeuo fod yn golled drom i'r ffermwr oherwydd mae'r planhigyn yn marw ar ôl blodeuo; ond i'r gwyddonwyr mae'n fendith, oherwydd dyma gyfle anaml i astudio dull blodeuo'r planhigyn.

'Tonkin' yw'r math mwyaf cyffredin o bambŵ sy'n cael ei dyfu mewn planhigfeydd, a dyma'r math sy'n gyfarwydd i ni ym Mhrydain. Mae 5,000 o dunnelli ohono yn cael ei allforio o Chona i Ewrop bob blwyddyn, a'r rhan fwyaf yn cael ei ddefnyddio ym myd garddio i ddal planhigion tomatos a ffrwythau eraill. Mae'r mathau trwchus yn cael eu defnyddio i wneud dodrefn a gwialeni pysgota.

Yn Asia, gwir gartref y bambŵ, y defnyddir y planhigyn i amrywiaeth helaeth o wahanol ddefnyddiau: sgaffold ar gyfer adeiladu neu adnewyddu tai, dodrefn o bob math, gan gynnwys basgedi a chewyll; pin ysgrifennu, papur, bwyd a hyd yn oed feddyginiaethau o sudd y gwahanol fathau. Mae bambŵ wedi ei blethu yn cael ei ddefnyddio fel rhaffau i dynnu llongau i harbwr, ac y mae rhaffau fambŵ pleth wedi eu defnyddio i adeiladu pontydd. Mae 66 y cant o'r holl bapur a ddefnyddir yn India wedi ei wneud o goed bambŵ.

A'r math mwyaf o goed bambŵ yn y byd? *Dendrocalamus giganteus*; brenin y goedwig bambŵ o wlad Burma. Mae'n tyfu i uchder o 120 troedfedd, ac yn droedfedd o drwch.

**Cystadleuaeth:** Pa anifail o China sy'n dibynnu ar y coed bambŵ am ei fwyd? Gwobr o £1 i'r enw cyntaf allan o het Dyfrin y Dewin. Anfonwch at Dyfrin y Dewin, Gwasg Gwynedd, Caernarfon, erbyn Mehefin 17eg.




# I WLAD BELG

**BU NIFER o blant Ysgol Llanrug ar drip i wlad Belg yn ddiweddar. Dyma bigion o hanesion Gwawr Owen, Llinos Davies, Sharon Roberts, Gwilym Jones a Darren Bissette.**

**Nos Fercher, Ebrill 22,** am chwarter i hanner nos, cychwynnodd Bws Arvonia o Ysgol Llanrug i Felixstowe. Ar ôl wyth awr o daith dyma gyrraedd y porthladd (dydd Iau).

I mewn â ni, yn y bws i'r 'Viking Voyager' a chychwyn ar y fordaith bell. Yr oedd yn llong fawr a chawsom weld ffilmiau yn y sinema. Euthum i gysgu am awr neu ddwy a phan ddefroais gwelais borthladd Zeebrugge ar y gorwel. Tua dau o'r gloch y prynhawn cefais y profiad bythgofiadwy o fynd allan o'r llong yn y bws a bod ar dir estron am y tro cyntaf yn fy mywyd. Bu raid troi fy oriawr ymlaen i ennill yr awr gyfandirol.

'Roedd pawb wedi blino'r noson honno ac ar ôl tro fach oddi amgylch Breden aeth pawb i'w wely.

**Dydd Gwener:** Trannoeth cawsom fynd ar y tram i dref fawr Ostend. Cawsom gyfle i siopa a gwario ffranciau. Gwelsom yr Eglwys Gadeiriol a hen longau hardd yn yr harbwr.

Ar ôl cinio, i ffwrdd â ni i Brugges. Gelwir y lle hardd hwn yn Fenis y Gogledd. Cawsom fynd mewn cwch ar y gamlas am tua hanner awr. 'Roedd perchennog y cwch yn medru saith iaith yn rhugl. Gwelsom eglwys fechan lle cedwir gwaed Iesu Grist mewn cas gwydr. 'Roedd gwaith 'les' hardd iawn i'w weld ymhob man yno.

**Dydd Sadwrn:** Dyma gychwyn ar daith arall. I Middelburg ar ynys Walchern. 'Roeddem erbyn hyn yn yr Iseldiroedd. 'Roedd yn rhaid defnyddio arian gwahanol yma. Parodd hyn gryn ddryswch gan fod gennyf ffranciau Belg, gilders yr Iseldiroedd ac arian Llantrisant yn fy mhwrs.

Yna gwelsom seindorf ar y stryd a dyn ar y blaen yn dawnsio ac ambarel fawr felen yn ei law. Yma yn unig y gwelsom ni wisg draddodiadol.

Nos Sadwrn cawsom ddisgo yn y Gwesty a rhoddwyd cwpan fechan i'r enillwyr. Y ddau fuddugol o'n hysgol ni oedd Sharon Roberts a Kevin Lloyd.


**Dydd Sul:** 'Roeddem yn cael mynd i'r parc mwyaf yn Ewrob sef Parc Meli yn Adinkerke. 'Roedd hwn bron ar y ffin rhwng Ffrainc a gwlad Belg. Euthum i mewn i ryw gastell mawr. Wrth gnocio ar y wal 'roedd 'Puss in Boots' yn dod allan i siarad, a milwr yn dod wedyn ac yn chwythu ei gorn. Aethom mewn cwch drwy dwnnel hir i wlad y Gwenyn – rhai smalio wrth gwrs! Bu bron i mi fynd yn sâl ar y 'roller-coaster'. 'Roedd sŵ yno hefyd a gwlad y Tylwyth Teg. Yr oedd popeth yno am ddim! 'Roedd yn ddiwrnod bendigedig.

Rhaid oedd pacio nos Sul a noswylio'n gynnar ac yr oedd pawb yn bur drist a distaw.

**Dydd Llun:** Ni soniodd yr un o'r plant am y fordaith yn ôl o Zeebrugge i Felixstowe. Hwyrach mai gwell fyddai anghofio honno. Prin iawn oedd y plant na fuont yn sâl ac nid oedd y rhan fwyaf o'r athrawon yn mentro symud rhyw lawer.

Cyrhaeddodd pawb yn ôl yn saff heb unrhyw anffawd ychydig wedi'r un ar ddeg. 'Roedd pawb wedi blino'n llwyr ond yn sicr cafwyd trip bythgofiadwy. Diolch yn fawr i Mr Derfel Gruffydd am ei drefnu.

GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo



Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR

# PENISARWAUN

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Mai 11. Cafwyd gwasanaeth byr gyda Mrs Mowll yn arwain. Noson Goffi a gafwyd ac anfonwyd yr arian i Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb a gyfrannodd.

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs O.C. Roberts, Elidir View, Llanrug yn eu profedigaeth o golli Mam. Roedd Mrs S.J. Roberts (Ship gynt) yn aelod ffyddlon o Eglwys Santes Helen ac o Undeb y Mamau ac yn meddwl y byd o'i heglwys. Bydd colled fawr ar ei hôl yn yr eglwys. Daeth tyrfa dda i'w chynhebrwng bnawn Llun, Mai 19.

Bydd trip Ysgol Sul Santes Helen yn mynd i'r Rhyl ar Orffennaf 4. Os oes rhywun eisiau dod gyda'r bws, cysyllted â Mrs A. Paterson, Rhif 1 Bryntirion.

Bydd Dydd G])) Gweddi a Rhodd ddydd Sul Mehefin 7. Y gŵr gwadd yn y gosber fydd y Parch. Trefor Jones, Ficer Caernarfon.

CYMANFA GANU – Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Bozra ddydd Sul Ebrill 26. Cafwyd eitemau gan blant yr ysgolion Sul yn y prynhawn. Daeth cynulleidfa dda ynghyd.

CAPEL Y WESLEAID – Ar Fai 3 derbyniwyd Mrs Elizabeth Jones, 17 Bryntirion a Hughie Jones, Heather Bank yn gyflawn aelodau yng nghapel y Wesleaid gan y Parch Tudor Davies, gweinidog, a bedyddiwyd Aled Wyn Jones, mab bychan Mr a Mrs E. Jones, 17 Bryntirion. Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Mr H. Williams, 12 Bryntirion.

Llongyfarchwn y plant hyn o Ysgol Sul y Wesleaid am ennill Bar i'w medalau am gasglu tuag at y Genhadaeth Dramor: Dylan Edwin Jones, Jonathan Vincent Richardson, Kenneth Vincent Richardson, Mark Stephen Porter, Caroline Jones a Dyfed Jones.

LLONGYFARCHIADAU i Eurgain Evans ar lwyddo yn ei harholiad piano ac i Cora Jeavnson ar gael medal yn Llangefni am fabolgampau.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Pat Larsen ar gael ei hailethol yn gynghorydd ar Gyngor Sir Gwynedd.

Hefyd Mr Douglas Jones, B.Add., Tŷ Gwyn ar ei benodiad yn brifathro ysgol yng Nghlwyd.

DYMUNIADAU DA i Mr David A Evans, Glyn Arthur, sydd yn yr ysbyty ym Mangor. Cafodd Alison Jones, Weirglodd Las ei chadw yn yr ysbyty dros nos ar ôl damwain. Gobeithio ei bod wedi gwella. Hefyd cafodd Mr Iorwerth Griffiths, 5 Bryntirion ddamwain i'w goes. Ein cofion ato yntau.

CLWB YR HEULWEN – Cafwyd cyfarfod ddydd Mawrth 17 Mai. Rhoddwyd y te gan Mrs Nesta Pritchard ac enillwyd y raffl gan Miss G. Jones. Bydd y trip blynyddol yn mynd i Borthmadog ac ymlaen i Lanbedr a Dolgellau ddydd Mawrth, 30 Mehefin.

DIOLCH – Dymuna Mrs N. Williams, 12 Bryntirion, Alwyn ac Olive ddiolch yn fawr am bob caredigrwydd, cardiau, blodau a rhoddion ariannol a dderbyniasant yn eu profedigaeth. Anfonwyd y rhoddion at Ymchwil y Galon.

CYDYMDEIMLWN â theulu'r diweddar Mr Emrys Williams, Caernarfon yn eu profedigaeth. Roedd Emyr yn un o'r pentref.

YSGOL TAN Y COED – Cafwyd ymweliad gan Gwmni Theatr Bara Caws pryd y cyflwynasant 'Y Bwbach Blêr' fel adloniant addysgol ar gyfer Dosbarth y Babanod.

Treuliodd tri o'r plant, sef Angharad Crew, Hayley Barton a Lawrence Turner wythnos ar gwrs Dysgwyr yng Ngholeg Glynllifon. Cawsant amser difyr yng nghwmni plant o ysgolion eraill.

Fel rhan o'u gwaith ar 'Fannau Arbennig' aeth plant Safon 4 i ymweld â Bryn Celli Ddu ar Ynys Môn.

PRIODAS – Dydd Iau cyn y Pasg, priodwyd Jack Nix, 'Talsarnau' a Freda M. Roberts, 'Munillo'. Bydd y ddau yn treulio tair wythnos ar ynysoedd y Canary ym Mehefin. Ein dymuniadau gorau iddynt.

YR AWR FAWR – Braf oedd gweld llun Marc Porter ar raglen 'Yr Awr Fawr' ar y teledu yn ddiweddar.

DIOLCH – Mae Bob Turner, Tyddyn Difyr eisiau diolch i bawb a ddangosodd garedigrwydd tuag ato ar ôl ei ddamwain.

DIOLCH – Dymuna Pwyllgor Ysgol Feithrin Gymraeg y pentref ddiolch yn fawr iawn i'r sawl a drefnodd Yrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys yn ddiweddar am drosglwyddo elw'r noson i goffrau'r ysgol. Diolch yn fawr. Erbyn hyn mae plantos bach yr Ysgol Feithrin yn cael llawer o hwyl yn chwarae gydag offer a theganau newydd a brynwyd gydag elw'r Ffair Wanwyn. Dyma gyfle arall felly i gael diolch i bawb yn y pentref am eu cefnogaeth.

DIOLCH – Dymuna Rheon Larsen ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty yng Nghaernarfon.

WYTHNOS GARNIFAL – Cynhelir Carnifal a'r gweithgareddau sy'n dod yn ei sgîl yn ystod yr wythnos sy'n diweddu ar Orffennaf 3.

Gorffennaf 1: Bydd chwaraeon (pêl-droed a rownderi) i bedair ysgol. Bydd Mr Meilir Owen, sy'n chwarae pêl-droed i Ddinas Bangor, yn ganolwr i'r gemau pêl-droed a Mrs Wroe gyda'r gemau rownderi.

Gorffennaf 2: Noson o ddisgo i'r plant bach ac yn hwyrach yr un noson i bobol ifanc.

Gorffennaf 3: Noson y Carnifal a'r Mabolgampau. Ceir mwy o fanylion oddi ar bosteri a rhaglenni ac yn yr Eco nesaf.

MARW – Drwg gennym glywed am farwolaeth tad Mrs Mary Moodley yn Iwerddon. Ein cydymdeimlad dwysaf â hi yn ei phrofedigaeth.

GENI – Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Haydn Lewis, Penpwllcoch ar enedigaeth eu merch fach.

## EISTEDDFOD PENISARWAUN YN LLWYDDIANT ETO ELENI

Unwaith eto eleni roedd Eisteddfod Penisarwaun, a gynhaliwyd nos Wener, Mai 8, yng Nghapel Glasgoed, yn llwyddiant ysgubol. Calondid oedd gweld yr hen gapel dan ei sang unwaith eto, ac ieuenctid y pentref mor awyddus i ddod ymlaen a chystadlu. Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i swyddogion Capel Glasgoed am eu caniatâd i ddefnyddio'r capel, ac am eu cydweithrediad. Eleni eto roedd yr Eisteddfod yn ffodus iawn yn ei beirniaid, sef Miss Rhiannon James, Mrs Alwen Hughes, Mr W.J. Eames a Mr Selwyn Griffith. Rydym yn ddiolchgar iawn hefyd i Miss Ilid Eames am ei chyfeilio medrus. Ein llywydd oedd un o 'hogia'r pentre' sydd bellach yn byw ym Mhen Llŷn, sef Mr Ieuan Ellis, Botwnnog, prifathro ysgol Pont-y-Gof. Cawsom anerchiad hynod o gartrefol a phwrpasol ganddo, a mawr yw ein diolch iddo.

Serch hynny, ar ôl diolch i'r rhai hyn i gyd, rhaid cofio mai'r rhai sydd yn cystadlu yw'r rhai sydd yn sicrhau llwyddiant unrhyw eisteddfod. Profiad gwefreiddiol oedd gweld dwsinau o Gymry bach Penisarwaun (rhai sydd yn Gymry naturiol, a rhai sydd yn tyfu'n Gymry diolch i ymroddiad yr ysgol leol) yn cael cyfle i ddod at ei gilydd i gystadlu'n gyfeillgar. Llawer o ddiolch i'r rhieni, y prifathro ac athrawon yr ysgol, a phawb arall a fu wrthi'n galed yn paratoi'r plant.

Pleser aruthrol oedd gweld llawer mwy o blant o 11 oed i fyny yn cystadlu eleni ar y cystadleuthau llwyfan – da iawn chi, a diolch yn fawr iawn i chi. Dyma restr o ganlyniadau'r Eisteddfod.

**Canu. Dan 4**: 1. Nia Lewis, 2. Eleri Jones a Sioned Wyn Jones. **4-6**: 1. Ceirion Williams, 2. Sioned Lewis, 3. Hefina Jones ac Osian Evans. **6-8**: 1. Rebecca Thomas, 2. Andrew Turner, Dyfed Jones a Bedwyr Evans. 3. Iola Williams. **8-10**: 1. Sioned Williams a Dylan Pierce Williams, 2. Angharad Crewe a Sioned Roberts, 3. Mark Porter, David Edwards a Carys Griffiths. **10-12**: 1. Rhian Price Williams, 2. Dylan Edwin Jones, 3. Paula Edwards ac Alison Barton. **12-15**: 1. Delyth Huws, 2. Einir Parri a Sharon Owen. **Deuawd: Dan 15**: 1. Delyth ac Einir. **Parti Canu. Dan 9**: 1. Parti Sioned yn cael y Gwpan, 2. Parti Mark a Pharti Rebecca, 3. Parti Wayne. **9-12**: 1. Parti'r Genethod, 2. Parti Meurig a Pharti Gethin. **Adrodd: Dan 4**: 1. Nia Lewis, 2. Sioned Wyn Jones. **4-6**: 1. Ceirion Williams, 2. Llŷr Elliott, 3. Kenneth Richardson. **6-8**: 1. Dyfed Jones, 2. Iola Williams a Jonathan Richardson, 3. Dylan Price Williams. **8-10**: 1. Sioned Roberts, 2. Eurgain Evans. 3. Amanda Orrock a Sioned Williams. **10-12**: 1. Dylan Edwin Jones. 2. Rhian Price Williams. **12-15**: 1. Sharon Owen. **Parti Adrodd Oed Cynradd**: 1. Parti Rhian yn cael y Gwpan, 2. Parti Dylan, 3. Parti Ian. **Oed Uwchradd**: 1. Parti Ni. **Adrodd Ail Iaith 4-6**: 1. Owen Turner. **Barddoniaeth**: **8-10**: 1. Eurgain Evans, 2. Mark Porter, 3. Dylan Pierce Williams. **10-12**: 1. Rhian Price Williams, 2. Gwenllian Parry, 3. Alison Barton a Kevin Pritchard. **Rhyddiaith**: **4-6**: 1. Sioned Lewis, 2. Ceirion Williams a Kenneth Richardson, 3. Andrea Lewis a Susan Williams. **6-8**: 1. Dylan Pierce Williams, 2. Iola Williams a Bedwyr Evans, 3. Bethan Evans, Jonathan Richardson ac Yvonne Orrock. **8-10**: 1. Sioned Williams ac Eurgain Haf Evans. 2. Carys Griffith ac Amanda Orrock, 3. Emyr Williams a Rhian Williams. **10-12**: 1. Dylan Edwin Jones, 2. Gwenllian Parry a Rhian Price Williams, 3. Nigel Oulton a Gwynfryn Williams. **Rhyddiaith Ail Iaith**: **4-6**: 1. Sally Jones, 2. Seth Eagles, 3. Andrea Paterson. **6-8**: 1. Stephanie Jeavons, 2. Corinna Prescott. **8-10**: 1. Hayley Barton, 2. Angharad Crewe, 3. Steven Wroe. **10-12**: 1. Paula Edwards, 2. Alison Barton, 3. Dominic Crowe. **Tlws yr Eisteddfod** – Dylan Edwin Jones. **Coginio Dan 13**: 1. Delyth Roberts, 2. Sharon Owen a Sioned Roberts. **13-18**: 1. Karen Jones, 2. Sandra Jones a Sioned Roberts. **Arlunio**: **Dan 4**: 1. Nia Lewis a Sioned Wyn Jones. **4-6**: 1. Sioned Lewis, 2. Ceirion Williams a Seth Eagles, 3. Hefina Jones, Andrea Paterson, Sally Jones, Kenneth Richardson, Susan Williams. **6-8**: 1. Rebecca Thomas, 2. Bethan Evans, 3. Wayne Lewis, Dylan Price Williams, Andrew Turner, Iola Williams, Yvonne Orrock, Jonathan Richardson, Sion Roberts, Bedwyr Evans. **8-10**: 1. Eurgain Haf Evans, 2. Dylan Pierce Williams, 3. Angharad Crewe. **10-12**: 1. Patrick Crewe a Dominic Crowe, 2. Karen Jeavons a Catrin Evans. 3. Gethin Griffiths, Kevin Pritchard, Dylan E. Jones, Gwynfryn Williams, Meurig Green, Nigel Oulton, Ceirion Williams, Kevin Williams. **12-15**: 1. Fiona Lloyd Jones, 2. Sandra Jones, 3. Alwyn Williams, Anwen Morris, Dylan Wyn Jones. **15-18**: 1. Yvonne Evans, 2. Dylan Wyn Jones, 3. Dylan Owen. **Gwaith Llaw**: **4-6**: Owen Turner, 2. Susan Williams, 3. Andrea Paterson. **6-8**: 1. Andrew Turner, 2. Bethan Evans, 3. Dylan Price Williams. **8-10**: 1. Dylan Pierce Williams, 2. Mark Porter, 3. Lucas Crowe. **10-12**: 1. Dominic Crowe. **12-15**: 1. Meirwen Williams, 2. Anwen Morris, 3. Sharon Owen. **15-18**: 1. Meirwen Williams.

**Dyma restr o roddion tuag at Eisteddfod Bentref Penisarwaun (ar ôl Mawrth 31). Dymuna'r Pwyllgor ddatgan eu diolch i bawb am eu haelioni:**
**£30** – Pwyllgor Cae Chwarae Penisarwaun; **£13** – Elw parti 'Tupperware'; **£10** – Mr I.M. Ellis, Botwnnog (Llywydd); **£5** – Mr E.W. Jones, 3 Bryn Tirion; Mrs G. Lewis, 6 Llys y Gwynt; **£2** – Mrs M. Pritchard, 3 Madoc Terrace; Y Ddiweddar Mrs S.J. Roberts, Elidir View, Llanrug; Mr a Mrs L. Jones, Meillionydd; Mr a Mrs C. Richardson, 6 Brynhyfryd; Mr a Mrs N. Jones, 5 Brynhyfryd; **£1** – Mrs E. Porter, 7 Llys y Gwynt; Mrs K. Williams, 8 Llys y Gwynt; Mrs A. Hughes, Cae Hywel; Mrs K. Thomas, Deiniolen; Mrs G. Williams, 15 Bryn Tirion; Mrs M. Jones, 5 Llys y Gwynt; Mrs P.D. Williams, 3 Llys y Gwynt; Mrs J. Evans, 39 Bro Rhythallt, Llanrug; Mrs A. Williams, Meillionydd; **50c** – Mrs B. Mowll, 19 Bryn Tirion.



*Mae arwyddocad arbennig i'r llun uchod o blant Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun yn y flwyddyn 1938. Yn eistedd yn y rhes flaen, y pedwerydd o'r chwith mae Mr Ieuan Ellis (Botwnnog erbyn hyn), sef Llywydd Eisteddfod Penisarwaun eleni. Ein diolch i Miss Elinor Jones, 2 Bron y Waen, Penisarwaun am y llun a'r enwau. Nancy Edwina Williams, Dilys May Roberts, Nancy Owen, Gracy Thomas, Phyllis Ellis, Catherine Humphreys, Betty Thomas.*

*Doreen Evans, Arvonia Thomas, Rhiannon Ffoulices, Betty ?, Ann Ffoulices, Katie May Evans, Eirlys Jane ?, Betty Jones.*

*Evan Wyn Jones, Aled Jones, Hugh Jones, Ieuan Melvyn Ellis, Alun Jones, Emrys Jones, Gryffydd Jones, Gwynedd ?, Elfed Davies, Gryff Thomas.*

# DIOLCH

*Diolch i Miss Elinor Jones, 2 Bron y Waen, Penisarwaun am yrru enwau'r plant yn y llun o Ysgol Tan y Coed Penisarwaun yn rhifyn Ebrill o'r Eco.* **Rhes ôl:** *Llew Owen, Idris Hughes, Idris Roberts, Alun Jones, Aled Jones, Evan Wyn Jones, Trevor Jones, Gryffydd Meirion Roberts.* **Rhes ganol:** *Euronwy Jones, Eirlys Jones, Thelma Jones, Betty Ffoulices, Catherine Humphreys, Doris Jones, Eirlys Hughes, Kate Ellen Jones, Jean Roberts, Olwen Humphreys.* **Rhes flaen:** *Eric Jones, Gweneth Ellis, Elinor Jones, Katie May Evans, Helen Jones, Arvonia Thomas, Edgar Jones.*

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## YSGOL BRYNREFAIL

**TAITH OXFAM** – Dydd Sadwrn Mai 16 aeth 60 o ddisgyblion yr ysgol ar daith gerdded o 16 milltir i Goedwig Gwydr. Rhoddir yr arian a gesglir i gronfa Oxfam. Trefnwyd y daith gan Mrs Jean Pleming, a bu Miss Elisabeth Williams, Mrs Noreen Manning a Mrs Mary Huws yn ddigon dewr i gerdded hefyd!

**KES** – Ymwelodd aelodau o ddosbarthiadau 4 a 5 â Theatr Gwynedd ar Fai 15 i weld y ffilm o'r nofel enwog 'Kes' gan Barry Hines. Mae'r dosbarthiadau sydd yng ngofal Mrs Manning, Mrs Huws, Mrs Carys Jones a Mr Iwan Lloyd Williams yn astudio'r llyfr ar gyfer eu harholiadau.

**YR URDD** – Ar Fai 2 cafodd aelodau Cangen yr Urdd yn yr ysgol gyfle i ymweld â Phenllanw Porthmeirion, Castell Cricieth a bedd Lloyd George. Trefnwyd y trip gan adran yr Urdd, Miss Elisabeth Williams, Mrs Jean Pleming, Mrs Carys Jones a Mrs Rhian Ellis.

**HANES RHYW GYMRO** – Ar Fai 21 bu aelodau o'r 6ed Dosbarth yn gweld drama enwog John Gwilym Jones, 'Hanes Rhyw Gymro', yn Theatr Seilo. Hwn oedd y tro cyntaf i'r ddrama gael ei pherfformio ers 17 mlynedd, ac yr oedd 3 o'r actorion a fu'n perfformio yn y perfformiad gwreiddiol yn actio ynddi.

**CWRS UNDYDD CYMRAEG** – Dydd Gwener Mai 22 cynhaliwyd Cwrs Undydd Cymraeg yn y Brifysgol ym Mangor. Bu dosbarth Cymraeg y 6ed dosbarth yn cymryd rhan yn y cwrs, ac yn cael darlithoedd ar y llyfrau gosod i'r arholiadau lefel A.

**DIGWYDDIAD ANGHYFFREDIN** – Dydd Iau, Mai 21, digwyddodd rhywbeth newydd iawn yn hanes yr ysgol. Ar ddiwedd blwyddyn cyflwynir cwpan i'r Tŷ buddugol yn holl weithgareddau'r ysgol, sef yr Eisteddfod, Mabolgampau, Gemau Tai, Ymgyrch Lyfrau a'r Gala Nofio.
Ond eleni cafwyd 2 fuddugwr – Er cyfri a chyfri daeth **Elidir** a **Gwyrfai** yn gyfartal 1af gyda 787 o bwyntiau yr un. Eilian oedd yn drydydd gyda 646 ac Eryri yn bedwerydd gyda 637½ o bwyntiau.



**CAPTEINIAID ELIDIR A GWYRFAI GYDA'R CWPAN TŶ**

**Chwith i'r dde:** *Menai Deulyn Williams, Owain Griffith, Iola Llywelyn, Kathy Williams.*

**ARHOLIADAU** – Daeth yn dymor arholiadau unwaith eto, a dymuna pawb yn yr ysgol bob lwc i'r rhai sydd yn sefyll arholiadau Lefel A, O a T.A.U. ar ddechrau mis Mehefin. Pob lwc!!

**CYFARFOD ATHLETAU'R YSGOL** – Dyma safleoedd y Tai. Elidir (345 pwynt), Gwyrfai (294½), Eilian (255), Eryri (249x). Victor Ludorum: 1. Ceris Jones (38 pwynt), 2. Matthew Antoine (32), 3. Ian Pritchard (31). Victrix Ludorum: 1. Melanie Sellars (30), 2. Eurgain Roberts (26), 3. Margaret Roberts (26). Perfformiadau gorau yn y gwahanol adrannau: Bechgyn Ieuengaf: Harry Evans, Bechgyn Iau: Matthew Antoine ac Alwyn Williams. Bechgyn Hŷn: Ian Pritchard. Genethod Ieuengaf: Meirwen Williams a Petula Williams. Genethod Iau: Irene Evans a Melanie Sellars. Genethod Hŷn: Susan Ward, Margaret Roberts ac Eurgain Roberts.



*Ceris Jones (Victor Ludorum); Melanie Sellars (Victrix Ludorum).*



**PERFFORMIADAU GORAU (GENETHOD)**

**Ôl:** *Margaret Roberts, Susan Ward, Eurgain Roberts, Irene Evans.* **Blaen:** *Meirwen Williams, Petula Williams, Melanie Sellars.*



**PERFFORMIADAU GORAU (BECHGYN)**

**Ôl:** *Ian Pritchard, Ceris Jones;* **Blaen:** *Matthew Anthoine, Alwyn Williams, Harry Evans.*

**CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION ARFON** – Dyma'r goreuon o'r ysgol: **Genethod dan 13:** Meirwen Williams. 1af pwysau (record), 1af disgen: Petula Williams, 3ydd naid uchel. **Genethod dan 15:** Melanie Sellars 1af 1500 metr. **Genethod dan 17:** Susan Ward 1af picell (record), 1af disgen, Margaret Roberts ail picell, ail 400 metr. Cheryl Edwards – ail disgen. Lesley Williams, Carys Williams, Margaret Roberts ac Eurgain Roberts, 3ydd ras gyfnewid. **Genethod dan 19:** Gwyneth Bell 1af naid uchel 3ydd naid driphlyg. **Bechgyn dan 13:** Howyn Roberts 1af picell, Harry Evans ail, disgen. **Bechgyn dan 15:** Michael Roberts, 1af pwysau; ail disgen. Matthew Antoine 1af disgen. Michael Coombs 3ydd naid driphlyg. Stephen Owen ail pwysau. Alwyn Williams yn torri record yr ysgol yn y ras 1500 metr. **Bechgyn dan 17:** Steven Jackson ail, picell.



**ENILLWYR MABOLGAMPAU ARFON**

**Ôl:** *R.M. Parry (Athro Ymarfer Corff), Michael Roberts, Susan Ward, Matthew Anthoine, Gwyneth Bell;* **Blaen:** *Meirwen Williams, Howyn Roberts, Melanie Sellars.*


**TRAWS GWLAD** – Rhoddwyd manylion y rasys traws gwlad yn y rhifyn diwethaf. Dyma lun y buddugwyr.



**ENILLWYR RHEDEG TRAWS GWLAD**

**Blaen:** *Melanie Sellars (Genethod Iau);* **Rhes ôl:** *Gareth Hughes (Bechgyn Iau), Ceris Jones (Bechgyn Hŷn);* **Yn absennol:** *Darren Roberts (Bechgyn Ieuaf).*

**PÊL-DROED** – Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth Malcolm Allen o Ddeiniolen ar daith i dde Lloegr gyda thîm pêl-droed dan 15eg oed Gogledd Cymru. Fe enillodd tîm y Gogledd y tair gêm a chwaraewyd ac fe sgoriodd Malcolm gôl mewn dwy o'r gemau.



*Malcolm Allen.*

**GŴYL NOFIO** – Cynhaliwyd Gŵyl Nofio'r ysgol ym mhwll nofio Bangor ar Mai 8. Dyma enwau'r enillwyr: **Genethod Ieuaf Dull Rhydd,** Meinir Jones (Gwyrfai 29.2; **Genethod Iau Dull Rhydd:** Robina McCann (Elidir) 25.2 (record); **Genethod Hŷn Dull Rhydd:** Gwyneth Bell (G) 23.1 (r); **Bechgyn Ieuaf Dull Rhydd:** Matthew Shaw (Eilian) 23.2; **Bechgyn Iau Dull Rhydd:** Ben Shaw (G) 22.3 (r); **Bechgyn Hŷn Dull Rhydd:** Iestyn Jones (G) 19.0 (r). **NOFIO BROGA – Genethod – Ieuaf:** Louise Bernard (El), 39.1; **Iau:** Robina McCann (El) 31.1 (r); **Hŷn:** Gwyneth Bell (G) 28.5; **Bechgyn – Ieuaf:** Matthew Shaw (Ei) 28.2 (r); **Iau:** Ben Shaw (G) 30.8 (r); **Hŷn:** David Arfon Hughes (Ei) 29.0 (r); **AR Y CEFN – Genethod – Ieuaf:** Louise Bernard (El) 40.0; **Iau:** Yvette Mumford (Ei) 34.9 (r); **Hŷn:** Gwyneth Bell (G) 31.2 (r); **Bechgyn – Ieuaf:** Matthew Shaw (Ei) 30.0; **Iau:** Ben Shaw (G) 29.0; **Hŷn:** Stephen Jackson (Eryri) 27.5 (r). **PWYNTIAU** – Eilian 81, Elidir 64, Eryri 84, Gwyrfai 122.

**CRICED** – Mae Carl Wannop, Owain Griffith, Andrew Flint, James Spry a David John Pritchard wedi eu dewis i garfan criced Ysgolion Gwynedd (Bechgyn Hŷn).


**AR WERTH**

**BARGEN Y MIS! (S). Datsun Cherry Estate F11. Mawrth 1978, 33,000 milltir yn unig. £1650. Ffoniwch Caernarfon 5605.**

**GWYDRO DWBL?**

**ARFON WINDOW FITTERS Ltd.**

**56a FFORDD PENCHWINTAN, BANGOR**
**Bangor 52313**

Cyngor arbenigol yn rhad ac am ddim
Gwarant o 5 mlynedd ar yr holl waith

*CEFNOGWCH Y CWMNI LLEOL SY'N LLOGI LLAFUR LLEOL*

**Cyfarwyddwr: Ian Harris**

**I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...**

**Osmond W. Shaw**

DEINIOLEN

*Ffôn: LLANBERIS 545*

**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**

# THE WAR GAME (BBC 1965)

Yn neuadd Ysgol Gynradd Llanrug nos Fercher, Mai 6, dangoswyd y ffilm ddadleuol *The War Game* dan nawdd y mudiad yng Ngwynedd dros Ddiarfogi Niwclear. Difaterwch ynteu ofn wynebu'r canlyniadau a barodd i gynifer o bobl gadw draw? Yn sicr, cafodd y ffilm effaith ar y deg ar hugain neu ddeugain o bobl a ddaeth yno i wylio a thrafod y ffilm. Roedd y mwyafrif wedi eu hargyhoeddi cyn diwedd y noson o'r angen am ddiarfogi niwclear. Cyhoeddwn ar y dudalen hon erthygl sy'n amlinellu bwriadu a chynlluniau cangen Gwynedd o'r Ymgyrch Dros Ddiarfogi Niwclear. Ond i'r rhai na fanteisiodd ar y cyfle i weld y ffilm, dyma grynodeb byr o'i hanes, a'r rhesymau pam y gwaharddwyd hi gan y BBC.

Ym misoedd diwethaf 1963 dechreuodd cynhyrchydd gyda'r BBC ymchwilio ar gyfer ffilm a ddaeth yn ddiweddarach i'w galw yn *The War Game*. Comisiynwyd Peter Watkins y cynhyrchydd gan y BBC, a rhoddwyd swm o £10,000 i gynhyrchu ffilm a ddangosai effaith ymosodiad niwclear ar Brydain. Fis Tachwedd 1965, cyhoeddodd y BBC nad oeddynt yn bwriadu teledu'r ffilm oherwydd ei bod *"too horrifying for the medium of broadcasting"*. Dri mis yn ddiweddarach, mewn cylchlythyr gan y BBC, adroddwyd fod y ffilm yn *"conveys the sense that what it is showing could happen to the people who might be watching it"*. Mewn amryw o ddatganiadau diweddarach ar ran y BBC cyfeiriwyd at *"the possibly tragic consequences of vulnerable people switching on by chance, having missed an advande warning"*.

Ym mis Chwefror 1966 rhyddhawyd y ffilm gan y BBC i'r Sefydliad Ffilmiau Prydeinig, ac y mae wyth copi o'r ffilm yn eu meddiant i'w dangos mewn sinemâu a chlybiau led-led y wlad. Mae pob un o'r wyth copi wedi ei archebu bedwar mis ymlaen llaw. Yn 1979 cafodd Concord Films bum copi, ac y mae ganddynt erbyn hyn ugain o gopïau, a'r rhain hefyd wedi eu harchegu bedwar mis ymlaen llaw. Felly, mae cannoedd o bobl wedi gwylio'r ffilm, ac y mae'r CND yn parhau i bwyso ar y BBC i'w dangos ar y teledu.

Isod, cyhoeddwn sylwadau dau aelod o'r gynulleidfa a fu'n gwylio'r ffilm yn Llanrug. Bernwch drosoch eich hunain a ydynt yn cydweld neu'n anghydweld â barn rhai o'r bobl a welodd y ffilm cyn penderfyniad y BBC i'w gwahardd.

Kenneth Tynan (beirniad ar bapur yr *Observer*): "Mae'n debyg mai dyma'r ffilm bwysicaf i'w gnwneud erioed. Dylai gael ei theledu a'i dangos mewn sinemâu, nid yn unig yma, ond ym mhob man ar wyneb y ddaear . . . Oherwydd y gwaharddiad, mae'r Bbc yn ymddwyn fel meddyg sy'n cadw'r gwirionedd rhag claf sy'n dioddef o salwch marwol; gall tawelwch osgoi dychryn, ond gall hefyd atal y feddyginiaeth . . ."

Syr Robert Lusty (un o lywodraethwyr y BBC ar y pryd): "Mae Watkins (sef y cynhyrchydd) wedi llwyddo i greu rhaglen arbennig, a hynny gyda rhagoriaeth, gonestrwydd ac argyhoeddiad."

# CHWARA



*Ffoaduriaid newynog yn ymosod ar ganolfan rheoli bwyd wythnos ar ôl yr ymosodiad niwclear.*

## CORFF WEDI LLOSGI



*Corff un o'r miloedd a losgwyd gan effeithiau'r bom niwcliar a ollyngwyd yn Hiroshima.*



*Arwyddlun CND — croes wedi ei thorri o fewn cylch. Mae'r cylch yn cynrychioli bywyd — sef plant heb eu geni.*

## SYLWADAU'R GWYLWYR

*Ers cryn amser bellach, yr wyf o'r farn gref na ddylid cefnogi unrhyw beth sy'n ymwneud ag ynni niwcliar am resymau moesol, dyngarol a heddychol. Prin yw fy ngwybodaeth wyddonol, ar wahân i ddarllen ambell erthygl neu gylchgrawn ar y pwnc. Deuthum i'r casgliad fod effeithiau rhyfel niwcliar yn erchrydus. Pa mor ddychrynllyd? Nid oeddwn yn siŵr. Gyda'r anwybodaeth a'r ansicrwydd hynny yn fy meddwl yr euthum draw i'r Ysgol Gynradd i weld 'The War Game'. Rhoddwyd ychydig o Gefndir y ffilm i ni ar y dechrau a'r modd y gwrthododd y BBC ei dangos ar deledu. Fe'n rhybuddiwyd fod golygfeydd difrifol ynddi ac y dylai unrhyw berson dan ddeunaw oed fod wedi cael caniatâd rhiant i'w gwylio.*

*Oedd, yr oedd yn ddychryn mawr i mi ac eraill yno. Dangoswyd i ni dref lle'r oedd pawb yn mynd o gwmpas eu pethau yn hollol naturiol. Yna'n hollol ddi-rybudd daeth tryblith, poen ac anobaith. Ar wrthdrawiad y bom 'roedd y trybelydredd yn tasgu a chrwydro. 'Roedd plant a phobl nid yn unig yn cael eu dallu, ond yr oeddynt yn dal peli eu llygaid ar gledr eu dwylo. 'Roedd eu croen fel petae'n toddi oddi ar eu cyrff. 'Roedd y tân yn llosgi eu dillad a'u tai gan wneud gwaith y gwasanaeth achub yn amhosibl. Rhedai llawer o gwmpas yn ynfyd tra safai eraill yn eu hunfan yn sgrechian. Gorweddai cyrff ymhob man.*

*Ond yr oedd gwaeth i ddod. Daeth y distawrwydd a'r orchwyl o geisio gostegu'r dref. Dosbarthwyd y cleifion i dri categori — y rhai y gellid eu trin a hwyrach eu gwella, y rhai y mentrai'r meddygon eu trin a'r gweddill na chredent eu bod werth edrych arnynt. Ac yn union fel y gwneir ag anifeiliaid, saethwyd y rhai olaf hyn i'w rhoi allan o'u poen! Y briwiau corfforol oedd y rhain.*

*Daeth eraill drwy'r profiad yn ddi-anaf. Ond dybed? 'Roedd y sioc a'r dychryn, yr anobaith a'r ofn i'w weld yn amlwg. Teuluoedd wedi'u colli a chartrefi wedi'u chwalu. Pa bwrpas oedd i'r dyfodol? Hawdd iawn oedd credu mai'r meirw oedd yn lwcus.*

*'Roedd ofn arnaf pan ddeuthum adref. Euthum i fyny'r grisiau ac edrych yn ddifrifol ar ddau blentyn bychan, hollol ddiniwed, yn cysgu'n dawel. Meddyliais yn sobor, gan ddiolch yn ddistaw, nad oeddynt yn gwybod na deall sut y gallai dyn fod yn trefnu eu dyfodol.*

*Mair Hughes*

*Gresynais weld cynulleidfa mor fechan wedi dod i weld y ffilm arswydus hon, sydd yn ceisio dangos ychydig o'r hyn a wyddom o ganlyniadau defnyddio arfau niwcliar, ac sydd hefyd yn dangos mai dinistr llwyr fydd i'r blaned hon o'r gwallgofrwydd meddyliol sy'n cefnogi arfau niwcliar o unrhyw fath. Er bod y ffilm wedi ei hysbysebu yn y wasg, ac yn siopau'r pentref, 'doedd ond llond dwrn o gyfeillion a fydd yn arfer mynychu ein capeli. Ymddengys fod nifer y Sason sy'n byw yn yr ardal yn llawer mwy ymwybodol o'r perygl na'n cenedl ni. Onid Eglwys Crist a ddylai fod yn arwain yr ymgyrch yn erbyn yr arfau dieflig hyn? Pa bryd y deffrown i'r perygl?*

*W.A. Jones*

# E RHYFEL



*Aelodau'r heddlu yn saethu cleifion yng nghategori meddygol tri — sef 'personau diangenrhaid' yn dioddef o wahanol afiechydon marwol gan gynnwys salwch trybelydrol. Byddai cleifion o'r math hwn yn rhoi straen annioddefol ar gyfleusterau meddygol, ac felly byddai hawl gan yr heddlu i'w saethu yn nytrach na gadael iddynt ddioddef marw'n araf a phoenus o salwch ymbelydrol.*

## YMGYRCH GWYNEDD DROS DDIARFOGI NIWCLEAR

Mae Ymgyrch Diarfogi Niwclear (YDN), Gwynedd mewn bodolaeth ers ychydig fisoedd yn unig. Mewn byr o amser ymaelododd dros ddau gant o bobl yn yr ymgyrch a daethpwyd i gysylltiad ag unigolion a grwpiau cydymdeimladwy. Casglwyd dros saith mil o enwau i'r ddeiseb Brydeinig yn erbyn arfogi niwclear mewn sawl papur lleol. Yn ogystal, cynhaliwyd a threfnwyd cyfres o gyfarfodydd cyhoeddus mewn gwahanol rannau o'r Sir.

Ar hyn o bryd mae'r ffilm *The War Game* yn cael ei dangos mewn deg ar hugain o wahanol ganolfannau drwy Wynedd. Amcangyfrifir y bydd o leiaf ddwy fil a hanner o bobl Gwynedd wedi gweld y ffilm hon erbyn diwedd mis Mai. Ymgais yw hyn i unioni rhywfaint ar y cam a wnaeth y Llywodraeth wrth rwystro darllediad gan y BBC o'r ffilm bwysig hon. Mae hi'n bwysig oherwydd ei bod yn esbonio'r peryglon niwclear gan ddangos yn frawychus o glir y dioddef a'r galanas ynfyd a fuasai'n dilyn ymosodiad niwclear. Po fwyaf o bobl a gaiff y cyfle i ddeall ynfydrwydd rhyfela niwclear yma mwyaf fydd cryfder y gwrthwynebiad i'r ras arfau y mae'r llywodraeth hon yn gwneud cymaint i'w hyrwyddo. Dyna pam y mae'r llywodraeth yn atal y BBC rhag dangos y ffilm ar y bocs; dyna pam nad yw'r llywodraeth eisiau i chwi a fi wybod y ffeithiau.

Yn ddiweddar dros Wynedd, Cymru, Prydain ac Ewrop mae mwy a mwy o bobl yn dod i wybod a wynebu'r gwir am effeithiau rhyfel niwclear. Dyna un rheswm pam y bu'r fath gynnydd yn rhengoedd y mudiadau sy'n ymgyrchu dros ddiarfogi niwclear yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rheswm arall yw'r anesmwythyd dwfn ymhlith pobl gwledydd sy'n aelodau o NATO oherwydd i'w harweinyddion gytuno ym 1979 i osod mathau newydd o arfau, gan gynnwys y *cruise missiles* ar eu tir, Milwyr yr Unol Daleithiau fydd â'u bysedd ar fotwm y saethynnau hyn. Defnyddiodd Tony Benn y term *no annihilation without representation*' i fynegi'n gryno y pryder a deimlir ynglŷn â lleoli'r arfau hyn yng ngwledydd Prydain.

Datgelwyd newid arwyddocaol yn agwedd cyhoeddus NATO at ryfela niwclear yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bellach mae'r geiriau *first strike, acceptable retaliation* ac *European Theatre nuclear warfare* yn llithro'n frawychus o hawdd dros wefusau Regan, Thatcher a'u dilynwyr. Mae arwyddocâd y termau hyn yn hyll o syml. Bellach mae'n amlwg nad atal rhyfel yw'r nod. Yn hytrach, gwerir miloedd o filiynau o ddoleri a phunnoedd ar fathau newydd o arfau megis y saethynnau *'Cruise'* a *'Trident'* a fydd yn galluogi ein meistri i ymosod yn gyntaf *(first strike)* a dinistrio rhan helaeth o'r stoc arfau niwclear sy'n yr Undeb Sofietaidd. Gan na ddifethir holl arfau'r Dwyrain rhagwelir dial a fydd yn lladd 25 miliwn ohonom yng nglwedydd Prydain. I'n meistri mae'r nifer yma'n dderbyniol *('acceptable retaliation')*.

Peth newydd ac arwyddocaol yn y brotest yn erbyn y ras arfau ar ei gwedd newydd yw lleisiau rhai a fu'n swyddogion uchel yn y Lluoedd Arfog. Er enghraifft, bu'r araith a draddododd yr Arglwydd Mountbatten ychydig fisoedd cyn ei farw yn ddylanwad cryf ar lawer o'r arweinyddion hyn. Un o'r dadleuon cryf a ddefnyddiodd Mountbatten oedd fod yr Unol Daleithiau yn gwrthwynebu cwtogi ar arfau am fod y diwydiant niwclear yno wedi datblygu'n fath o beiriant aruthrol o rymus a phroffidiol i'w berchenogion. Gwelai ef berygl enbydus hefyd yn y dadleuon fod yr arfau niwclear 'llai' yn ddiogelach. Yn hytrach, credai y byddai defnyddio'r rheini yn siŵr o arwain at ryfel niwclear cyffredinol a hynny'n troi i fod yn holocost terfynol.

Syniad camarweiniol a ledaenir gan y llywodraeth yw y bydd modd 'mochel yn ddiogel yn ystod ymosodiad niwclear. Mae ein llywodraethwyr wedi bwcio eu lle yn eu tyllau a'u twneli cyfrinachol o dan y ddaear; gobeithiant oroesi cyflafan niwclear yno gan ddychwelyd i'r wyneb wedyn i reoli unrhyw drueniaid fydd ar ôl. Mewn gwirionedd, go fychan fydd eu siawns hwy o ddod drwyddi; ni fuasai dim gobaith i'r rhelyw ohonom y tu allan i'r gwarchodfannau.

Ein hunig obaith yw sicrhau na ddigwydd ymosodiad niwclear drwy berswadio'r llywodraeth i gael 'madael â'u harfau niwclear bygythiol. Dyna yw polisi gwledydd gwâr fel Canada a Sweden. Mae mwy a mwy o bobl ym mhob gwlad yn ymuno yn y mudiadau diarfogi er mwyn gorfodi eu llywodraethau i ymwrthod ag arfau niwclear. Rhaid i ni bobl gyffredin y byd lwyddo i wneud hyn yn fuan; gyda phob dydd sy'n mynd heibio mae'r arfau a'r perygl o ryfel yn cynyddu.

**Be fedri di 'neud?**

I'r sawl sy'n byw yng Ngwynedd y cam cyntaf yw ymaelodi â YDN Gwynedd. O wneud hynny fe dderbyniwch gopi o gylchlythyr chwarterol y mudiad yng Ngwynedd, copi o'r cylchgrawn diarfogi, *Sanity*, a bathodyn y mudiad. Cewch felly wybod y ffeithiau am y ras arfau ac am weithgaredd a gobeithion y mudiadau heddwch yn lleol, yng Nghymru, Prydain, Ewrop a thros y byd. Yn lleol mae cyfle i bob unigolyn wneud ei gyfraniad i weithgareddau YDN Gwynedd gan gynnwys ennyn diddordeb ac ennill cefnogaeth eich undeb llafur, plaid wleidyddol, enwad crefyddol, cymdeithas neu glwb.

Beth amdani? Beth am ddefnyddio'r ffurflen ar y dudalen hon i ymaelodi, a chwarae eich rhan yn y frwydr am ddyfodol.

## FFURFLEN YMAELODI

Dymunaf fod yn aelod o Y.D.N. Gwynedd. Amgaeaf fy nhanysgrifiad blynyddol o ddwy bunt (£1 yn unig i bensiynwyr, di-gyflog a myfyrwyr a 50c. i ddisgyblion ysgol).

ENW ..............................................................................

Cyfeiriad ........................................................................

.......................................................................................

.......................................................................................

FFÔN: ............................................................................

LLOFNOD ....................DYDDIAD .....................................

Dychweler y ffurlfen hon a'ch tanysgrifiad (sieciau neu archeb post i Y.D.N. Gwynedd) i'r Ysgrifennydd Aelodaeth, Y.D.N. Gwynedd, 2, Top Sling, Tregarth, Bangor.



**Er Côf**

MAM
TAD
BRAWD
CHWAER
PLENTYN

# AGOR ANGORFA



*Rhai o bobl a ymwelodd â'r amgueddfa.*

*parhad o'r dudalen flaen*

Bu agor yr amgueddfa yn ddigwyddiad arbennig iawn i Mr Islwyn L. Jones, Clerc Cyngor Cymdeithas Llanberis a brodor o'r pentref. Bu'n ddyfal gasglu defnyddiau ynglŷn â'r bardd-lenor ers naw mlynedd bellach, ac yn ôl Mr Jones, nid oes pen-draw i waith fel hyn. Ef hefyd fu'n bersonol gyfrifol am addasu'r degau o luniau a welir ar furiau'r amgueddfa.

Yn ei gyflwyniad i eitemau'r gwasanaeth coffa yng Ngorffwysfa diolchodd Mr Jones i bawb fu'n cynorthwyo i baratoi'r amgueddfa ac yn arbennig i Mr W.J. Eames, Pennaeth Ysgol Gwaungynfi, am y gwaith printio a welir yno.

Ar ddechrau'r gwasanaeth darllenodd y Parch W.R. Williams, y Felinheli lythyr oddi wrth Mrs Eirene Davies, gweddw T. Rowland Hughes yn gresynu na allai fod yn bresennol i ddadorchuddio'r gofeb. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan barti cerdd dant Ysgol Dolbadarn a Hogia'r Wyddfa. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mr G.S. Jones, Cadeirydd Cyngor Cymdeithas Llanberis, a lediwyd yr emyn "Tydi a roddaist" gan Perisfab.

Yn y ddarlith goffa a draddodwyd gan y Dr T. Emrys Parry soniwyd am y deyrnged a roddodd T. Rowland Hughes i bobl bro ei febyd yn ei nofelau. Darlun o gymdeithas a phobl wrth eu gwaith a'u caredigrwydd a'u harddwch dynol yn rhagori ar harddwch natur.


Ein llongyfarchiadau a'n diolch i Gyngor Cymdeithas Llanberis am ei gwneud yn bosib inni adnabod yn well un o enwogion y fro.



*Mr K. Jones, Cadeirydd is-bwyllgor Angorfa.*



*Mr Rowland Wyn Jones a Mr Islwyn L. Jones tu allan i Angorfa.*



*Y Dr. T. Emrys Parry draddododd y Ddarlith Goffa.*


SETIAU TELEDU LLIW AIL LAW

MEWN CYFLWR RHAGOROL

SIOP DELEDU

T CEPAS

Ffordd yr Orsaf

LLANRUG

(*Ffôn: Llanberis 205 gyda'r nos*)



Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574

*PEN CIGYDD Y FRO!*

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!


# I GOSI'R COF



*Dosbarth yn Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun gyda'r ysgolfeistr, Mr Jones, tua 1924-25.*

*Llun trwy garedigrwydd Mrs M.G. Williams, Gwylfa, Bethel.*

**(Rhes ôl):** *William John Roberts, Robert David Roberts, Henry Williams, W. Emyr Jones, W.A. Rowlands, Fred Jones, William Jones, Elfed Williams.* **(Canol):** *Maggie Lloyd Edwards, Megan Pritchard, Lizzie Roberts, Katie Jones, Eurwen Jones, Daisy Rowlands, Humphrey Williams, W. Oliver Jones.* **(Blaen):** *M.G. Williams, Maggie Williams, Myra Closs Jones, Jennie Jones, Myfanwy Roberts, Nesta Roberts, Elsie Rowlands.*

# BETWS GARMON

PEN-BLWYDD – Dathlodd Meirion Williams, Y Llythyrdy ei ben-blwydd yn 18 oed ar Ebrill 8. Er bod y dymuniadau'n hwyr maent yr un mor wresog, a dymunir y gorau iddo i'r dyfodol yn ei swydd gyda'r Bwrdd Dŵr wedi iddo gael ei sefydlu'n swyddogol yno ar ôl gorffen chwe mis ar brawf.

Hefyd dymunir yn dda i Carol Jones, Tŷ Coch ar ei phen-blwydd yn 18 oed ar Ebrill 18.

YSBYTY – Dychwelodd Mr Iestyn Jones, Bryn Tegid adref o'r ysbyty wedi gwella.

Mae'n dymuniadau am wellhad buan yn mynd i Mr O.P. Pritchard, sy'n ysbyty Bryn Seiont.

GENETH Y BLODAU – Llongyfarchiadau i Kern Bound, Tŷ Coch ar gael ei dewis yn eneth y blodau yng ngharnifal Waunfawr.

# CARNIFAL LLANRUG

## WYTHNOS O HWYL A SBRI!

**NOS SUL MEHEFIN 14**

Cymanfa Ganu – Capel Mawr Llanrug

Hogia Bryngwrian

Nia ac Annwen (enillwyr Cenedlaethol)

Seindorf Arian Llanrug

Telynores – Olwen Davies

Arweinydd – Dr Brian Powell (Côr y Traeth)

Organyddes – Mrs Gres Pritchard 8.00 p.m.

**NOS LUN MEHEFIN 15**

Tombola yn yr Ysgol Gynradd Llanrug 7.00 p.m.

**NOS FAWRTH MEHEFIN 6**

Helfa Drysor 6.30 p.m.

Enwau'r ymgeiswyr erbyn Mehefin 5 i unrhyw un o aelodau'r pwyllgor Cyw Iâr a sglodion

Tâl 50c

**NOS FERCHER MEHEFIN 17**

Disco Plant i 8 oed: 6-7.30 Plant hŷn: 7.30-10.00

**NOS IAU MEHEFIN 18**

Noson Goffi ac adloniant ysgafn

**DYDD SADWRN MEHEFIN 20**

Carnifal yn cychwyn o Bontrhythallt am 1.30

**NOS SADWRN**

Cinio yng Ngwesty Nanhoron Nefyn

**PEIDIWCH Â METHU DIM!**

# PLANT Y PUMDEGAU



*Criw o blant Llanrug yn chwarae'n hapus yn yr eira ar fuarth yr ysgol gynradd. Tynnwyd y llun yn ystod y pumdegau gan Mr Leslie Larsen, oedd yn athro yn Llanrug ar y pryd, ond nid yw Mr Larsen yn gallu cofio'r flwyddyn. Tybed beth yw hanes y plant erbyn heddiw?*

# DINORWIG

CYMANFA YSGOLION SUL M.C. (Dinorwig a Llanberis) – Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Coch, Llanberis, ddydd Sul Mai 3 dan arweiniad Mr Irfon Ellis, Preswylfa. Llywydd cyfarfod y pnawn oedd Mr Idwal Roberts, Preswylfa. Cymerwyd gwasanaeth dechreuol y pnawn gan Miss Gwyneth E. Davies, Bro Elidir, Dinorwig; Miss Annette B. Roberts; Miss Olwen B. Roberts a Miss Marina B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Llongyferchir y merched ar eu gwaith yn arholiad y Maes Llafar. Unwyd â Chymanfa Ysgolion Sul Deiniolen a'r cylch yn yr hwyr dan lywyddiaeth Mrs Vera Griffith, Preswylfa. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan y Parch. Marcus Robinson a Mr Alwyn Owen, Gorffwysfa.

CYMANFA GANU BEDYDDWYR CYLCH ARFON – Dydd Sadwrn Mai 15 aeth llond bws o aelodau Eglwys Sardis i Gricieth i Gymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Arfon, o dan arweiniad Mr Arwel Ellis Jones, Manceinion. Ysgrifennydd ymroddgar y Gymanfa hon ers rhai blynyddoedd yw D.J. Thomas, Tŷ Capel Sardis. Llongyferchir y plant canlynol o'r Ysgol Sul a lwyddodd i ennill tystysgrifau'r Arholiad Llafar gyda marciau llawn. **O 8 i 11 oed:** Ruth Elizabeth Jones; **O 6 i 8 oed:** Jessica Mumford; Anna Taylor a Sarah Mumford.

ETHOLIAD CYNGOR SIR GWYNEDD – Mai 7 etholwyd Mrs Pat Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun yn gynrychiolydd ar Gyngor Sir Gwynedd dros yr ardalwyr. Llongyferchir hi ar ei buddugoliaeth a dymunir pob llwyddiant iddi yn y penodiad.

GWAELEDD – Cofion at y rhai sy'n cwyno yn yr ardal y dyddiau hyn a dymunir gwellhad buan iddynt.

SEIAT DOSBARTH – Cynhaliwyd Seiat Dosbarth yng Nghapel Dinorwig nos Fawrth Mai 19 dan lywyddiaeth y Parch Trefor Lewis, Deiniolen. Agorwyd y mater 'Byddwch Berffaith' gan Mr John Ogwen, Cysegr. Talwyd diolch i'r agorwr gan y Parch W.R. Williams, Bethel.

DEWIS BLAENORIAID – Dydd Sul Mai 17 dan arolygaeth y Parch Stanley H. Williams, Cesarea, pleidleisiodd Eglwys Dinorwig M.C. yn unfrydol i ddewis rhagor o flaenoriaid. Gwneir y dewis yn ystod mis Mehefin, gyda'r gweithrediadau yn nwylo'r Parch Ronald W. Roberts, Deiniolen a Mr Gwilym W. Williams, Brynrefail.

LLONGYFARCHIADAU i Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol ar ei llwyddiant yng nghystadlaethau cyfansoddi 14-25 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Teifi. Cafodd un wobr gyntaf, un ail a dwy drydedd.

## TRIP YSGOL SUL 1937



Anfonwyd y llun uchod gan r a Mrs Jack Jones, Bryn Eithin, Pentre Castell. Atgofion o'r amser difyr a gawsai plant a phobol ifanc Nant Peris a Llanberis pan oedd y trên yn rhedeg o Lanberis i Gaernarfon. Dyna ddiwrnod i'w gofio oedd diwrnod y trip efo'r trên i Landudno, neu y Rhyl.

Dyma i chi hanner dwsin o fechgyn heini Nant Peris wedi mynd ar y trip tua 1937. Erbyn heddiw credaf mai dim ond dau ohonynt sydd yma gyda ni o hyd. Os gwn i a ydych yn adnabod y chwech ohonynt. Diolch i Mr a Mrs Jack Jones am anfon y llun ardderchog yma.

# YMDDEOLIAD



*Mrs Margaret Hughes yn cyflwyno anrheg i Mrs Mary M. Jones, ar ran pawb yn ysgol Bethel. (Llun: I.L. Jones)*

# NANT PERIS

EISTEDDFOD – Er bod bron i fis wedi mynd heibio er pan gynhaliwyd Eisteddfod Capeli Llanberis rhaid llongyfarch plant y Nant ar eu llwyddiant. Rhoesant gyfri da ohonynt eu hunain fel arfer, a hefyd am eu llwyddiant yn y Gymanfa.

LLONGYFARCHIADAU – i Helen Mai a lestyn am ennill gwobr yn yr Arholiad Sirol, cawsant eu gwobrwyo ym Methesda ddydd Sadwrn.

GWAELEDD – Dymunir adferiad iechyd i amryw o'r ardalwyr sydd yn cwyno ar hyn o bryd.



*Alwyn Elis, Nant Peris a Nan Jones, Chwilog ar ddydd eu priodas yn ddiweddar. Dymunwn bob dedwyddwch i'r ddau.*


**Yn eisiau:**

Clyw-Deipydd (Audio Typist) – rhan amser – ar gyfer Meddygfa Waunfawr.
Hefyd peth gwaith Derbynwraig (receptionist).
Gwaith pnawn a chyda'r nos.

**Ffoniwch Waunfawr 223**

**W.J.GRIFFITH**
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr..*

**CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG**
£10 yr wythnos
£2.50 y dydd
HEFYD CLUDO
LLWYTHI YSGAFN
CLIRIO SAFLEOEDD,
DANFON TYWOD,
GRO A DEFNYDDIAU
ADEILADU ERAILL
**ERIC GOVER**
**11 STRYD YR WYDDFA**
**LLANBERIS**
*Ffôn:*
*PENLLYN 285*
*neu PADARN 327*

# PISTYLL Y PENTREF

## gan Mrs Nancy Rowlands

Ganwyd fi a magwyd fi yn ardal Deiniolen, neu Bro Gwaen Gynfi fel y ceir ei alw ambell dro. Deuais i fyw i Tan-y-Ffynnon pan oeddwn yn dair oed, y cartref adeg hynny oedd yn cael ei alw yn Pistyll Pell, cyn i'm rhieni newid yr enw a'i alw yn Tan-y-Ffynnon. Daw llawer atgof i'm meddwl pan fyddaf yn clywed y gân Pistyll y Llan yn cael ei chanu; rwyf yn mynd yn ôl yn awr i amser fy mhlentyndod.

Y pethau rwy'n gofio ynglŷn â'r Pistyll a'r hanes a gefais gan fy rhieni sef na ddaru'r hen Bistyll erioed sychu er mwyaf gwres yr haf, pan fyddai mwy na hanner yr ardal heb ddŵr byddent yn dod yn lluoedd gyda'u pwcedi a'u piseri i'r hen Bistyll i gyrchu dŵr, a phawb yn dweud ei fod yn werth dod yr holl ffordd i'w nôl gan fod paned o de wedi ei wneud gyda dŵr o'r pistyll yn llawer gwell na dŵr o dap. Felly hefyd y digwyddai yn y gaeaf pan fyddai'r peipiau dŵr y tai wedi rhewi. Deuent yn dyrfa eto i lawr y pentre at yr hen Bistyll Pell gan na rewodd erioed. Byddai fy nhad yn gwneud yn saff na fyddai brigau coed mwyar duon yn stwffio trwy'r clawdd ddim yn tyfu yn fawr i 'fygu'r pistyll' fel y byddai'n dweud; a byddai mam yn wastad ar ei gliniau yn sgwrio'r llechan las a oedd ar y llawr o'i flaen.

Amser difyr i mi yn blentyn fyddai pan ddoi'r amser i roi 'côl tar' ar y ffyrdd. Fe fyddai'r dynion gwaith yn stopio i ofyn am wydr i gael diod o ddŵr oer, mi ddarynt yfed peintiau un diwrnod gan ei bod yn boeth, a chefais innau ychydig geiniogau ganddynt, roedd ceiniog mor werthfawr yr adeg hynny. Diwrnod mawr arall fyddai Diwrnod yr Etholiad – gan fod yr ysgol lle byddent yn cyfarfod gyferbyn â'n tŷ ni. Byddai'r llywydd am y noson yn gofyn i fy mam a fuasai mor garedig a gwneud tebotiad o de i'r Aelod Seneddol ar gyfer diwedd y cyfarfod, a rwy'n cofio yn iawn iddo ddod i ddiolch i mam a dweud "Wel, mae'n rhaid i mi ddweud bod gennych de ardderchog Mrs Jones," a mam yn ateb, "na tydi'r te ddim gwahanol i de rhywun arall, ond mae'r dŵr yn well o'r pistyll," a dyma fo i'w boced a rhoi pisin hanner coron yn fy llaw, ac mae'n fy eiddo hyd heddiw, er i mi fod eisiau ei wario lawer gwaith ond am mai gan ein Haelod Seneddol ar y pryd hynny y'i cefais, fedrwn i ddim gwared a fo trwy feddwl mai am baned o de y cefais.

Amser arall i mi gofio ynglŷn â'r hen bistyll oedd diwrnod Cofio'r Milwyr, Tachwedd 11eg pan fyddai'r British Legion a Band Deiniolen yn dod at y Gofeb i gadw gwasanaeth. Byddai cynrychiolwyr o'r British Legion yn rhoi torch popi ar y gofeb, a hefyd byddai Syr Michael Duff yn rhoi torch, a chan fod ein tŷ ni ychydig lathenni yn is i lawr na'r Llyfrgell lle mae'r Gofeb, byddai fy nhad a minnau'n sefyll wrth y ddôr i wylio'r gwasanaeth. Ar ôl y gwasanaeth daeth Syr Michael heibio a gofyn i mam "Could I ask for a glass of your spring water please," a mam yn estyn glas y munud hwnnw. "Thank you," medda fo, "my throat was a bit dry," a dyma fo i'w boced a rhoi pisin chwech gwyn i mi; mae hwn eto yn fy eiddo hyd heddiw.


Tua'r un adeg bob blwyddyn, byddai hen wraig yn dod heibio i'r afon bach a oedd yn ymyl ein tŷ ni i gasglu 'Berwi Dŵr', byddai'n fodlon meddai hi os caiff hi ddod unwaith y flwyddyn, a byddai bob amser yn dod â phisar dŵr gyda hi gan ddweud, "Waeth i mi ladd dau dderyn efo'r un garreg ddim," hynny'n golygu wrth gwrs – casglu berwi dŵr a mynd â phiserad o ddŵr efo hi.

Hanes arall i mi gofio fy nhad ddweud wrthyf yw i rhyw bobl o America ddod i'r ardal ar eu gwyliau ac iddynt stopio i siarad â nhad a dweud, "You may not believe it, but I was baptised with this water, as my mother insisted to the Minister that there was no purer water to be had anywhere."

Amser difyr i ni fel plant oedd amser lladd gwair yn ffarm Ty'n-y-Weirglodd a oedd ychydig uwch na'm cartref. Byddem ni'r plant yn cario dŵr o'r pistyll i ryw hen dwb golchi mawr a fyddai'n cael ei roi yn y cae gwair i gadw piseri llaeth yn oer. Byddai'r dynion yn mynd yno am lasiad o laeth oer i'r twb pan fyddent yn sychedig. Cadwant y twb yng ngwaelod y cae mewn cysgod rhag i'r haul daro arno a'i gynhesu, 'roedd dŵr yr hen bistyll dipyn gwell na'r rhewgell heddiw am gadw'n oer.

Gan mai trol a cheffyl fyddai'n dod o gwmpas gyda llefrith pan oeddwn i'n blentyn, byddai 'Gel' y ceffyl yn mynnu cael yfed llond piser o ddŵr cyn yr âi yn ei flaen. Wedi dechrau rhoi iddo, 'roedd wedi mynd yn gast ganddo, wna fo ddim symud cam heb gael ei ddiod. 'Roedd gan y perchennog, John Williams Fron Chwith, ei biser ei hun iddo.

Dyma fi wedi rhoi rhyw fraslun o hanes yr hen bistyll ond mae'n druenus ei weld heddiw wedi cael ei fygu gyda brigau coed mwyar duon, cerrig wedi syrthio oddi ar y cloddiau nes 'does dim modd mynd yn agos i roi potel wrtho heb sôn am bwced neu biser, ond mae'n dal i redeg, heb sychu ac heb rewi, ond neb yn edrych ar ei ôl. Fel popeth arall toes neb yn gwerthfawrogi ei bwrpas yn y pentref. Cofiaf hefyd fel y byddwn yn gorfod cario dŵr i foelar golchi fy mam bob bore Sul ar ôl dod o'r oedfa, fel y byddai'n barod i fy mam gael golchi ar ben bore Llun; a hefyd ar bnawn Gwener ar ôl dod o'r ysgol i fy nhad gael bath ar ôl dod o'r chwarel – hynny wrth gwrs oedd twb o flaen y tân fel mewn llawer cartref, ond mae'n rhaid cyfaddef mai amser difyr fu'r amser plentyndod i mi yn fy hen gartref, Pistyll Pell.



Esgusodwch fi; rydwi'n gwneud arolwg ar ran y Cyngor lleol, ond oherwydd y toriadau ar y gwasanaethau cyhoeddus, fydda'i ddim yn gofyn yr un cwestiwn.

**CHWAER DDRAENOGES**



**Gobeithio'n arw na fydd raid i'r barbwr o Lanrug ddringo allan drwy ffenestr sied ei gyfaill o Gwm-y-glo pan ddaw amser iddo dorri ei wallt y tro nesaf.**

**Hefyd gobeithio bod y creadur anweledig, yr hwn a droiodd allwedd y drws o'r ochr allan a chloi y ddau i mewn wedi' heglu hi o'r fro am byth.**


**Wrth droed yr Wyddfa . . .**



# BWYTY FFERM
# BRON ERYRI
## LLANBERIS Ffôn 391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

Bwyty Trwyddedig · A la Carte · Bwyd Basgedi · Bwyd Môr Ffres

**Wedi eu paratoi gan ein Chef profiadol iawn**

Partion · Ciniawau · Gwleddoedd · Priodasau

*Lle i 110 ar y tro*
*Ffoniwch i fod yn saff o le*



# GWILYM JONES
## Monumental Works
## LLANRUG

**FFÔN CAERNARFON 2898**

**Gwaith Coffaol o bob math mewn llechi a gwenithfaen gan grefftwyr lleol**

# CRWYDRO LLWYBRAU

## Plwyf Llanddeiniolen

Gan ddechrau ger tafarn y Gors Bach, dilynwch y ffordd gul droellog tua'r hen eglwys. Mae'n werth oedi am ychydig i sylwi ar ambell englyn beddargraff yma: e.e. y ddau yma i Jane Ellis, bydwraig a fu farw yn 1885 ar ôl helpu i eni 1,6000 o fabanod!

**Shan merch Shon, amharchus anair – ni wnaeth**
**Yn wyth deg a phedair**
**Dan len Llanddeiniolen air,**
**Byd-wreigan heb ei drygair.**

**Ar ei braich dyner o'r bru – yn gwyntio**
**Gyntaf, ac amrantu**
**Un fil chwe chan baban bu**
**Yn eu hollol anallu.**

O'r eglwys, dilynwch y ffordd heibio'r Ynys ac i lawr yr allt serth nes cyrraedd Ffynnon Ddeiniolen ar y chwith yn y gwaelod. Bu dadl ynglŷn â safle'r ffynnon hon; rhai awdurdodau'n hawlio mai'r ffynnon ger Capel y Glasgoed yw Ffynnon Ddeiniolen. Gyferbyn â'r ffynnon ar y dde mae hen gapel Rhydfawr a adeiladwyd yn 1821 i gynnal achos y Methodistiaid Calfinaidd yn yr ardal. Roedd hyn wrth gwrs, cyn cyfnod adeiladu Capel y Glasgoed. Yn hytrach na dilyn y ffordd, trowch i'r chwith yng ngwaelod yr allt, a dilyn hen ffordd drol ar hyd ystlys Dinas Dinorwig. Yr enw ar lafar yr Lôn Bach Gô – tybed a oes rhywun all roi eglurhad i'r enw? Mae'r llwybr yn dringo'n raddol heibio i ochr goediog y bryn, ac y mae yma goed castan bendigedig: lle ardderchog i fynd am dro adeg hel colbs! Daw'r llwybr allan i'r ffordd uwchben fferm Cae Hob a chorsydd Waun, Penisa'rwaen.


Trowch i'r dde, gan ddilyn y ffordd yn ôl am Ddinas Dinorwig, y gaer hynafol a berthynai yn yr hen amser i dywysogion Gwynedd, ac a roddwyd yn 1282 gan Edward I i Syr Gruffydd Llwyd. O bosibl mai'r Gruffudd hwn a roes ei enw i ffermdy cyfagos Braich Riffri, oherwydd hen enw anwes am Gruffudd yw Riffir. I'r chwith oddi tan y gaer, ac yng nghanol cors eang sydd bellach yn feithrinfa coed, mae hen ffynnon arall, sef un Cegin Arthur. Yn ôl traddodiad, yma, o dan y ffynnon y mae cegin y Brenin Arthur a'r maeth o seigiau'r gegin sy'n rhoddi naws meddyginiaethol i ddŵr y ffynnon. Yma'n y gors mae tarddiad afon Cegin, a anfarwolwyd gan R. Williams Parry yn ei soned 'Ymson Ynghylch Amser':

**Hon ydyw'r afon, ond nid hwn yw'r dŵr**
**A foddodd Ddafydd Ddu . . .''**

Trowch i'r dde unwaith eto gan ddringo'n ôl i grib y bryn a golygfa fendigedig. Yn hytrach na dilyn y ffordd yn ôl am eglwys Llanddeiniolen, cymerwch y lôn fach gul ar y chwith, a disgyn tua fferm Nant Efa ar y chwith, a'r Gelli ar y dde. Yma'n y Gelli mae'n debyg yr oedd Huw Lewys, rheithor y plwyf a chyfieithydd 'Perl mewn Adfyd' yn byw o 1598 hyd ei farw yn 1634. Dilynwch Lôn bach Cae Meta (ac ar ôl cyrraedd adref, darllenwch 'Hen Atgofion', W.J. Gruffydd). Draw i'r dde ar draws y caeau, a chyn cyrraedd fferm Cae meta mae llwyni o goed cyll yn tyfu dros olion grŵp o hen gutiau amddiffynnol – ar lafar fe'i gelwir yn gytiau'r Gwyddelod. Wedi cyrraedd y briffordd ger Pensarn, trowch i'r dde ac yn ôl i gyfeiriad Bethel.

Ar y chwith, mae olion hen reilffordd y chwarel, a chlawdd uchel i'w chario. Dyma ddyffryn isel, corsiog, ac yr oedd rhys yma ers talwm a roes ei enw i'r tyddyn bychan gerllaw; Rhyd y Fuwch. Mae hen chwedl yn ceisio egluro'r enw hwn – roedd y Brenin Arthur a'i farchogion wedi bod yn teithio am amser hir, a phawb yn sychedig. Pan ddaethant i'r ardal hon, gwelodd un o'r marchogion yr afonig fechan ac meddai: "Rhyd, yfwch". Ac felly, y daeth y lle i'w alw yn Rhyd y Fuwch!!

Dilynwch y ffordd yn ôl am Fethel, heibio i Bont Charlie, y bont o lechi sy'n cario llwybr cyhoeddus dros drac y lein chwarel. Adeiladwyd y bont gan Charles Evans o'r Wern. Mae wedi ei gladdu ym mynwent Llanddeiniolen. Daw'r ffordd a chwi'n ôl i'r briffordd ger Capel Cysegr, a gallwch ddilyn y ffordd hon yn ôl i'r Gors Bach heibio i Erw Bian a chae Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru.





## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


## TRIP CLWB ERYRI

**Bydd aelodau Clwb Eryri yn mynd ar eu taith flynyddol ddydd Sadwrn 6ed Mehefin. Bwriedir cychwyn o Lanberis am un o'r gloch. Ymwelir â Dyffryn Conwy gan gynnwys gerddi Bodnant a cheir cinio yng Nghapel Curig ar ddiwedd y daith. Dylai'r aelodau hysbysu'r Ysgrifennydd Rol Williams, Ardwyn, Pant Waun, Waunfawr, os ydynt am ddod ar y trip a hynny mor fuan ag sydd modd. Etholir swyddogion o'r newydd yn ystod y daith.**

## Galw mamau Llanrug ac eraill

Cofiwch eich Pais y mis hwn! Yn rhifyn mis Mehefin mae Pais yn sgwrsio ag aelodau Clwb y Mamau Llanrug. Darllenwch hefyd hanes Jina Keller yn dygymod â gwaith gwraig tŷ yn yr Almaen. Mae Jina wedi ymgartrefu yn Neiniolen erbyn hyn. Cystadleuaeth, rysetiau Almaenig, Laura Ashley, ffasiwn. Bydd hyn a llawer mwy yn 'PAIS' sydd ar werth yn eich siop bapur newydd leol neu yn y siopau llyfrau Cymraeg.

## CYSTADLEUAETH CURIAD

### Teledu Lliw 20" Gwerth £300!

Dyna'r brif wobr a gynigir i ddarllenwyr Curiad mewn cystadleuaeth sy'n rhoi cyfle iddynt ddychmygu eu bod yn dal swydd Pennaeth Rhaglenni S.4.C.

Gofynnir iddynt lunio 22 awr o raglenni teledu Cymraeg ar gyfer wythnos o ddarllediad ar y Sianel newydd. Tafolir eu hymdrechion gan dri arbenigwr; Mr Owen Edwards, Cyfarwyddwr Sianel Pedwar; Mr Emyr Daniel, cadeirydd Cymdeithas Darlledwyr Cymraeg; Mr Euryn Ogwen, cynhyrchydd annibynnol.

Meddai Mr Owen Edwards wrth roi sêl ei fendith ar y gystadleuaeth – '''Dwi'n ei hystyried hi'n hollbwysig i gael barn ein darpar wylwyr ar y math o raglenni maen nhw'n eu dmuno. Yn naturiol mae gennym ein syniadau ond ar yr un pryd dwi'n siŵr y bydd yr ymateb i'r gystadleuaeth yn profi'n ddefnyddiol ac yn adeiladol o'n safbwynt ni''.

Ac mae gwobrau eraill ar gael – teledu symudol a thair record – drwy haelioni Cwmni Sony (UK) Cyf. a Sain Cyf.

Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw Mehefin 22. Cyhoeddir enwau'r buddugwyr yn ein rhifyn nesaf ynghyd ag ymdrechion y goreuon. Gobeithir cyflwyno'r gwobrwyon mewn cyfarfod arbennig yn Eisteddfod Maldwyn. Ceir rhagor o fanylion ar dudalen 19 o'r rhifyn cyfredol.


Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas
(Richard a Meirwen Thomas)
Llanrug
*Ffôn: CAERNARFON 4652*

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn : Portdinorwic 670882
Perchennog : J. Evans




PAPUR BRO CYMRU GYFAN
Ar werth yn eich siop bapur — 30c

# LLANBERIS

YN GWELLA – Da o beth yw deall bod amryw o'r ardalwyr fu'n cwyno yn ddiweddar yn gwella. Wedi cyrraedd gartre o'r ysbyty mae Miss Hughes, Stryd Tomos; hefyd Mrs Aled Owen, Stryd Siarlot. Ar ôl disgyn yn ei chartref, torrodd Mrs Leah Roberts, Llys Caradog ei choes ac mae yn ysbyty Môn ac Arfon. Yn derbyn triniaeth yn yr un ysbyty y mae Mrs Rogers, Stryd Newton.

Mrs Maria Pritchard, Stryd-y-Faenol a Miss Edwina Jones, Stad Glanrafon, Plas tirion hithau wedi derbyn triniaeth llawfeddygol. Dymunir iddynt gael adferiad llwyr yn fuan iawn.

Sasiwn Chwiorydd y Gogledd – Aeth nifer dda o Lanberis i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd i'r Wyddgrug, Mai 12. Cynhaliwyd y cyfarfodydd mewn tri o'r capeli yno. Cawsom anerchiad grymus fel arfer yn y prynhawn gan y Parch Meirion Lloyd Davies, Pwllheli yng Nghapel Pendref. Yna, yr hwyr buom yng Nghapel Bethesda yn gwrando ar y Parch Elfed ap Nefydd Roberts, Aberystwyth a'r lle yn orlawn. Cafodd pawb wledd hefyd wrth wrando ar y Côr o Fryniau Casia – 11 o ferched a 9 o ddynion ieuainc. Maent drosodd yn y wlad yma am wyliau, i geisio diolch i bobl Cymru am eu caredigrwydd a'u haelioni iddynt ar hyd y blynyddoedd.

CYMANFA'R ANNIBYNWYR – Cynhaliwyd Cymanfa Cylch Deiniolen, Cwm y Glo a Llanberis yng nghapel Bosra, Penisarwaun. Arweinydd y canu yn y prynhawn a'r nos oedd Mr Robert Lloyd, Dôl Elidir.

LLONGYFARCHIADAU – Estynnir llongyfarchiadau i Mrs Dilys Baylis, Stryd Goodman, ar ei anerchiad tymhorol iawn i blant Eglwysi Methodistiaid y Cylch yng Nghapel Bethania, Bethesda, lle y cynhaliwyd y Cyfarfod Misol y mis hwn. Roedd tua 150 o blant yn yr arholiadau. Tipyn o gamp yw cadw diddordeb plant ar unrhyw bwnc, ond llwyddodd Mrs Baylis i gadw eu diddordeb yn gryno iawn.

ANRHEGU – Ar ôl gwasanaethu am 15 mlynedd fel Rheolwr Banc y Midland yma yn Llanberis daeth diwrnod ymddeol i Mr Eurwyn Jones, Delfryn. Dechreuodd ei yrfa gyda'r banc ym 1941 gan gychwyn yn Nolgellau ac yna ym Mlaenau Ffestinio. Ym 1943 ymunodd â'r Llu Awyr hyd ddiwedd y rhyfel. Dychwelodd i'r Blaenau ac oddi yno i Lanrwst, Dolgellau a Phrestatyn. Symudodd i'r banc yn y Bala fel cyfrifydd ac oddi yno i Lanrwst; ac yna dyrchafwyd ef yn reolwr yn Llanberis.

Tra'n byw yn yr ardal, mae Mr Eurwyn Jones a'i briod wedi cymryd diddordeb mawr ymhob achos da. Maent yn selog dros ben yn Eglwys Nant Padarn, ac hefyd eu dwy ferch, Carys a Bethan. Mr Eurwyn Jones gyda Mr Dennis Williams sydd yn cadw gofal yr arian o Sul i Sul. Ef yw trysorydd Y Ganolfan hefyd ers rhai blynyddoedd. Ffyddlon iawn yw ef a'i briod i'r Henoed – yn ymweld â'u cartrefi, yn ymweld â'r ysbytai ac yn barod iawn eu cymwynas bob amser. Aelod buddiol iawn o bwyllgor Clwb yr Henoed yw Mrs Jones, ac yn boblogaidd iawn gyda'r pensiynwyr. Cysur mawr i'r cylch yw fod y teulu bach yma am aros yn ein plith am beth amser gobeithiwn. Nid ydym am eu colli.

Trefnwyd swper yng Ngwesty'r Stables, Llanwnda, nos Wener, Mai 1 gan staff y banc ac yn ystod noson ddifyr cyflwynodd Mr Richard Parry gloc hardd iawn i Mr Eurwyn Jones. (Mae'r cloc wedi ei wneud yn lleol gan Terry Parry (Clockwise), Bryn Hyfryd, Llanberis.

Dymunir blynyddoedd lawer o ddiddanwch a hapusrwydd i Mr Jones a'i deulu yn ein mysg.

Dyma benillion a gyflwynwyd gan Llion Jones i gyfarch Mr Eurwyn Jones.

**Gair neu ddau i'ch cyfarch heddiw**
**Ar achlysur pwysig iawn,**
**Wedi gweithio'm ddeugain mlynedd**
**Braf fydd cael ymlacio'n llawn.**

**Yn chwedeg pump y daethost yma,**
**O Lanrwst, Hynafol dre;**
**O'r dre honno, nôl y clywaf**
**Daw'r rheolwyr sy'n dy le.**

**Chwyddais fusnes Banc y Midland**
**Yn Llanbêr, – ŵr da o'r Traws,**
**Cefaist fwy o Staff i'th helpu;**
**Chwech nid tri – daeth pethau'n haws.**

**Wedi oes o drin ffigurau**
**Cyfrif pres – y doeth a'r tlawd,**
**Dyddiau diddan yw'n dymuniad;**
**Hir ymddeoliad – Hwyl hen frawd.**

*E.J. Llion Jones.*

Y CLWB METHEDIG – Trefnwyd trip difyr iawn i Fiwmares i aelodau Clwb Methedig Eryri. 'Roedd yr aelodau a chyfeillion eraill yn uchel eu clodydd i'r trip ac yn ddiolchgar iawn i Mrs Williams, Baladeulyn, Stryd Newton, yr ysgrifennydd am drefnu popeth mor hwylus a threfnus.

BRENHINES Y CARNIFAL – Mewn disgo a gynhaliwyd yn 'Y Ganolfan' gan aelodau o Bwyllgor y Carnifal dewiswyd Valerie Prydderch, Stryd y Cae yn Frenhines am 1981, gyda Delyth Williams a Jennifer Clarida yn forynion iddi.

UNDEB Y MAMAU – Ar y 5ed o'r mis cynhaliwyd gwasanaeth Undeb y Mamau gyda'r Canon Alun Jones yn gwasanaethu. Cafwyd anerchiad ddifyr iawn gan Mrs Arridge o Fangor ar ei gwaith yn yr Undeb a diolchwyd iddi gan Mrs Eric Owen ac eiliwyd y diolchiadau gan Mrs Buddug Hughes.

Ar y 19eg o'r mis mwynhawyd y trip blynyddol i Southport.

CYDYMDEIMLAD – Estynnit y cydymdeimlad dwysaf â Dilys Simpson (gynt Warren), Arwel, Stryd Warden ar farwolaeth frawychus o sydyn, ei phriod James Wesley Simpson. Trefnwyd yr angladd yn Lyth St Anne's lle y bu yn byw cyn dod i'r ardal hon.

PRIODAS – Ar Ddydd Sadwrn y Pasg, yng Nghapel Coch, gyda'r gweinidog y Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu a Mr Huw Peris Pritchard wrth yr organ, priodwyd Bryan Wynne Williams, mab Mr a Mrs Elfed Williams, Rhostryfan ac Eirian Wyn, merch Mr a Mrs O.H. Lewis, Cilan. Trefnwyd yr arlwy yng Ngwesty'r Fictoria. Byddant yn cartrefu yn Llanrug. Dymunir iddynt bob dedwyddwch a hir oes.



PERSONOL – Ar ôl misoedd o waeledd blin ac amser maith yn yr ysbyty bu farw mam yng nghyfraith Mr John Hugh Hughes, prifathro Ysgol Dolbadarn. Estynnir cydymdeimlad llwyraf i Mr Hughes a'i briod

CYNGOR Y GYMUNED – Cyfarfu cyngor y Gymuned yn y Ganolfan dan lywyddiaeth Mr G. Serall Jones. Diolchwyd i Mr Tom Jones am ei ddiddordeb a'i ffyddlondeb yn ystod ei flwyddyn fel llywydd.

Penodwyd Mrs Eiddwen Thomas, Stryd y Ffynnon yn ofalwr Angorfa – hen gartref T. Rowland Hughes. Mae aelodau'r gymuned wedi ei atgyweirio a'i addurno yn addas iawn ac yn bwriadu ei gadw er parchus gof am yr awdur. Derbyniwyd rhodd sylweddol iawn gan Mr a Mrs T.J. Williams, Penfro, Caenewydd, Llanrug tuag at bwrcasu meinciau i'w rhoi mewn mannau hwylus yma ac acw yn yr ardal. Fe wneir apêl gan y Cyngor i Gwmni'r Crosville a Chyngor Arfon i'r bwsus deithio i ben ucha Nant Peris fel ag y maent wedi wneud ar hyd y blynyddoedd, ac nid troi yn ôl ynghanol y pentre fel ag y maent yn wneud ar hyn o bryd.

Penderfynwyd anfon at yr awdurdodau priodol i wrthwynebu cael trwyddedd i'r ddiod feddwol yn y Ganolfan Mabolgampau yng Nghaernarfon. Bwriedir cyhoeddi *Guide Book* i'r Cylch a phenderfynwyd rhoddi £100 tuag at y gost o argraffu.

Ar brydiau mae'r ffordd ger Cwm Eilir a Choed Gwydr, Nant Peris wedi gorlifo ac achosi anhawster mawr i deithio ar hyd iddi. Penderfynwyd anofn y cwynion i'r Cyngor Sir ac hefyd gofyn i'r Cyngor roi ystyriaeth i ledaenu'r ffordd yn Nant Peris ger y Tyrpeg.

CROESO – Estynnir croeso cynnes iawn i'r ardal i Mr Harri Jones – sydd wedi ei benodi yn Reolwr Banc y Midland. Brodor o sir Fôn ydyw ond mae wedi gweithio gyda'r banc mewn llawer o ardaloedd – Llanrwst, Amlwch, Caernarfon, Treffynnon, Wrecsam, Y Trallwng a Chorwen. Da yw deall gan gyfeillion fod gan Mr Jones ddiddordeb mawr mewn mudiadau lleol, a sicrheir ef y bydd croeso iddo ymhob mudiad. Deëllir iddo fod yn brysur iawn gyda Phapur Bro Dyffryn Conwy – 'Y Pentan' – ef oedd Trysorydd y papur.

Y CWMNI DRAMA – Ar ôl tymor prysur a blinedig perfformiwyd y perfformiad olaf o'r tymor yn Theatr Ardudwy – a chafwyd llwyddiant mawr – gyda'r tŷ yn llawn.

Llongyfarchwn y Cwmni Drama am eu gwaith penigamp ar hyf y tymor a gobeithio y cawn eu gweld a'u clywed yn fuan iawn eto.

LLONGYFARCHIADAU – I Valerie Parry, Glan-y-Don ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 21ain oed ar Fehefin 19. Oddi wrth Mam, Dad a Nain, Eleri a Robin, Glan y Don.

DIOLCH – Dymuna Mrs Beti Parry, Glan-y-Don ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tra y bu yn yr ysbyty ym Mangor.

ADREF O'R YSBYTY – Ar ôl amser go hir yn yr ysbyty mae Mrs Mair Owen, Bro Eilian wedi dychwelyd i'w chartref.

Hefyd, Mrs Robert Morris, Bronwydd, wedi dychwelyd i gartref ei merch Heulwen yng Nghaerlŷr; hithau wedi bod yn yr ysbyty am driniaeth.

RAFFL – Dyma enwau'r rhai buddugol yn y raffl a defnwyd gan Mrs M. Lennon, Plas Tirion, 1. Mair Morgan, Ysgol Brynrefail, 2. A.R. Roberts, Tre Ifan, Llanrug, 3. Janice Price Ysgol Brynrefail.

Mae'r elw o £32.40 yn mynd at dreuliau Gwlith, y grŵp Gwerin Ysgafn o Ysgol Brynrefail sy'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghastell Newydd Emlyn.

Diolch i'r mamau ac i bawb am eu cefnogaeth a phob lwc i'r genod yn y de. Dymuniadau gorau hefyd i Rhian, Gwyn ac Einir.



*Dyma lun o ran o'r gweithgaredd yn y Ganolfan ddydd Sadwrn Mai 23 pan gyferfu sgowtiaid 'Brownies' a 'Guides' y cylch i godi arian i'w coffrau. Cynhaliwyd diwrnod (sef o 9am -9pm) o Gemau Tŷ Noddedig. Bu tua 120 o blant i gyd wrthi'n brysur yn chwarae ar fyrddau'r Ganolfan. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i'r pwyllgor rhieni ac i holl noddwyr y plant am eu cefnogaeth barod.*


Y Bistro

**45 Stryd Fawr**

**LLANBERIS**

*Ffôn: PADARN 278*

(Danny a Nerys Roberts)

**Pryd gorau'r fro**

# O SIAMBR SELWYN

Fûm i 'rioed yn fawr o arddwr. Oes, mae gen i glamp o ardd, a'r pleser mwya' a ges i ynddi 'rioed, oedd pan oedd Euron yn blentyn. Gosodwyd pyst gôl ym mhen draw'r ardd, a threuliasom ein dau oriau pleserus yn chwarae 'siots am gôl', arbed a sgorio penalties, a chracio gwydr ambell ffenast yn y fargen. Do bu'r ardd yn 'mini Wembli' am gyfnod. Gwyn fy myd yn y dyddiau hynny, a gallaf gyhoeddi yn gwbwl onest i minnau chwysu chwartiau yng ngardd Crud-yr-Awen yn y dyddiau dedwydd a fu.

Euthum i'r ardd y dydd o'r blaen hefyd, a chefais foddhad arbennig pan ganfyddais i'm gardd i o bob gardd gael yr anrhydedd o fod yn gartre i iâr fronfraith a'i theulu. Yn wir, fedrwn i ddim llai nag ymfalchio yn y ffaith.

Ond o feddwl dros y peth, efallai i'r hen iâr fronfraith edrych o'i chwmpas cyn penderfynu'n derfynol fel i ymgartrefu. Ac o sylweddoli ar y blerwch, iddi ddweud wrthi'i hun "Wel, dyma nefoedd o le i wneud nyth – ddaw 'na neb i ymyrryd â'm heddwch yn fan'ma".

Fodd bynnag, mae 'na dri chyw barus a swnllyd yn y nyth erbyn hyn, ac mae'n esgus i minnau beidio â thorri'r gwrych, nes bydd y teulu pluog wedi mynd dros y nyth.

"O na bawn fel deryn bach," medda' Ceiriog. Ydy, mae'n braf ar aderyn. Dim angen poeni am na phwyllgor cynllunio na dim. Gosod sylfeini ei dŷ lle mynno, a'i blethu'n gywrain, heb i'r un swyddog pwysig ddod yno efo'i blaniau i fusnesu. Credaf i Roger Jones fedru dweud y cyfan mewn englyn godidog. Un o'm hoff englynion i. Ei symlrwydd yw ei gamp.

**Y NYTH**

**Ni fu saer na'i fesuriad – yn rhoi graen**
**Ar ei grefft a'i drwsiad,**
**Dim ond adar mewn cariad**
**Yn gwneud tŷ heb ganiatâd.**

. . .

Mae miri a bwrlwm Prifwyl yr Urdd bellach drosodd, a llawer o blant Bro'r Eco wedi cael y profiad bythgofiadwy o gymryd rhan yng nghystadlaethau terfynol yr Ŵyl.

Ddechrau'r mis mi dreuliais i noson ddifyr yn Eisteddfod y Glasgoed, Penisarwaun. Eisteddfod gartrefol, hapus, a holl blant yr ysgol yn cystadlu fe dybiwn. Hyfryd gweld ail-godi hen Steddfod fel hon. Gobeithiaf yn fawr y gwireddir fy mreuddwyd cyn hir, ac y gwelwn Eisteddfod flynyddol Eco'r Wyddfa.

Yn ystod y misoedd diwethaf cefais y fraint a'r cyfrifoldeb o feirniadu cyfansoddiadau llenyddol Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a Steddfod Môn, a chefais yr un blas ar gyfansoddiadau'r plant o Ysgol Penisa'rwaun hefyd.

Dyma gerdd Rhian Price Williams ar y testun 'Sŵn'.

**SŴN**

**Sŵn y bore yn tŷ ni**
**Adar yn canu a glywaf fi.**

**Sŵn dŵr yn dripian, ymolchi'n lân**
**Mynd i lawr y grisiau, sŵn mam yn gwneud tân;**

**Sŵn bacwn yn ffrio**
**A dad yn shafio;**

**Sŵn crafu plât**
**A sŵn y postman yn agor y giât.**

**Sŵn cloc y gegin yn taro naw**
**Rhuthro o'r tŷ, allan i'r glaw.**

**Ond! – car heb betrol**
**Distawrwydd llethol**

**Rhuthro i'r ysgol ar gyflym droed**
**A'r brain yn crawcian rhwng brigau'r coed.**

**Sŵn yr athro yn bloeddio**
**"Hwyr unwaith eto".**

**Athro yn flin**
**Chwip din.**

Diolch Rhian. Synnu at yr hen athro cas 'na yn rhoi chwip din ichi hefyd, a rheswm da gennych chi fod y car wedi mynd allan o betrol. Mi ga'i air efo'r Mr Len Jones 'na!

Dyma gerdd arall ar yr un testun.

**SŴN**

**Distawrwydd llethol**
**Y bore bach**

**Rhuodd y cloc larwm byddarol**
**O na!**
**Llusgo i'r gegin.**

**Tincian poteli,**
**Saim yn sboncio**
**Hywel Gwynfryn – a'r Bwrdd Brecwast Cynnar.**

**Sŵn! sŵn, sŵn.**

**Adre gyda'r nos**
**Distawrwydd o'r diwedd.**

**Mynd i'r gwely**
**Dim sŵn**

**Beth?**
**Ci yn udo**
**Tylluan yn hwtian**
**Dad yn chwyrnu**
**O! dyna sŵn**
**Fedra' i mo'i ddioddef.**

Da iawn Gwenllian. Dic Parry ydy'r chwyrnwr profiadol y sonnir amdano yn y gerdd yna mi dybiwn.

. . .

Mae etholiadau'r Cyngor Sir trosodd unwaith eto. Ble 'roeddan nhw dudwch? Pwy? Wel y rhai hynny sy' byth a hefyd yn uchel eu beirniadaeth ynglŷn â gweithgareddau'r Cyngor Sir (a phob Cyngor arall), a gweithgarwch rhai o'r aelodau – yr etholwyr hunan-gyfiawn hynny, sy byth a hefyd yn 'sgrifennu'n feirniadol i'r wasg, ac yn dweud pethau hallt am ein cynrychiolwyr ar gynghorau.

Lle 'roeddan nhw? Pam na fasan nhw'n cynnig eu hunain i lenwi'r barchus arswydus sedd? Yna byddai'r cyfle euraid ganddynt i wella'r "sefyllfa druenus" y buont mor barod i'w beirniadu, drwy ddisodli'r aelod y buont mor barod i'w gollfarnu.

Na! digon tawedog fu'r cyfryw rai dros yr etholiad ynte. Dim gyts reit siŵr, neu ddim digon o allu. Esgus gwael ydy "dim digon o amser". Boed iddynt fod yr un mor dawedog am y pedair blynedd nesa' ma'. Fe gawsant eu cyfle.

. . .

"Glywis di am y Gwyddal hwnnw yn Smwddio cyrtans?" gofynnodd Nain.

"Naddo, wir," meddwn

"Wel, mi syrthiodd drwy'r ffenast."

Byddwch ofalus, wir, mae'n hawdd cael codwm.

Hwyl,
Selwyn

## CYMANFA'R METHODISTIAID

**Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Dosbarth Llanberis a Dinorwig yng Nghapel Coch, Llanberis o dan arweiniad Mr Irfon Ellis, Preswylfa.** Llywydd cyfarfod y prynhawn. Mr Idwal Roberts, Preswylfa a llywydd cyfarfod yr hwyr Mrs Vera Griffith, Preswylfa. Pan groeshawyd Cymanfa Ysgolion Dosbarth Deiniolen. Cyfeilyddion – Hugh Peris Pritchard ac Eluned Mai Jones.

**Arholiad Llafaredig.**
**Dan 5 oed: 1. Rhian Thomas, Gorffwysfa; Elin Roberts, Rehoboth; Beverley Ann Roberts, Rehoboth. Dan 6 oed: 1. Dylan Williams, Capel Coch; Llinos Haf Jones, Rehoboth. Dan 8 oed: 1. Annette Sellars, Gorffwysfa; Glenda Jones, Capel Coch; Alan Pritchard, Rehoboth. Dan 9 oed: 1. Iestyn Roberts, Rehoboth; Einir Thomas, Gorffwysfa. Dan 10 oed: 1. Delyth Williams, Capel Coch; 2. Jacqueline Sellers, Gorffwysfa. Dan 11 oed: 1. Nia Gwyn Griffith, Preswylfa; 2. Arwyn Roberts, Rehoboth, Sian Elen Pritchard, Rehoboth; Sian Gwyn Griffith, Preswylfa. Dan 12 oed: 1. Sharon Roberts, Rehoboth; Catrin Lloyd Roberts, Gorffwysfa; 2. Eirian Hughes, Preswylfa; 3. Gillian Evans, Gorffwysfa; John Gareth Morris, Gorffwysfa; Gillian Vaughan Jones, Gorffwysfa. Dan 14 oed: 1. Geraint Jones, Capel Coch; Ann Evans, Gorffwysfa. 2. Marc Wyn Parry, Gorffwysfa. Dan 17 oed: 1. Melony Tina Sellars, Gorffwysfa; 2. Amanda Windsor Sellars, Gorffwysfa; Marina Bryn Roberts, Dinorwig. Dan 21 oed: 1. Gareth Jones, Preswylfa; Gwyneth Elizabeth Davies, Dinorwig; Olwen Bryn Roberts, Dinorwig; Annette Bryn Roberts, Dinorwig.**

**Arholiad Ysgrifenedig.** Arholwr: Y Parch Trefor Lewis, Deiniolen.
Dan 9 oed: 1. Delyth Williams, Capel Coch; 2. Jacqueline Ann Sellars, Gorffwysfa; Einir Thomas, Gorffwysfa. Dan 11 o3d: 1. Helen Mai Pritchard, Rehoboth; 2. Sharon Roberts, Rehoboth; 3. Sian Elen Pritchard, Rehoboth; 4. Eirian Wyn Hughes, Preswylfa; Nia Gwyn Griffith, Preswylfa. 5. Arwyn Roberts, Rehoboth a Sian Gwyn Griffith, Preswylfa.

## EISTEDDFOD PLANT EGLWYSI'R ARDAL A NANT PERIS

Cafwyd eisteddfod hynod o lewrychus eto eleni a'r plant ar eu gorau glas yn mwynhau eu hunain. Y Beirniaid ydoedd: *Canu:* Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas. *Adrodd:* Mrs Mary Wyn Jones, Deiniolen. *Maes Llafur:* Mrs Bert Thomas a Mrs Gwynfor Williams. *Llenyddiaeth:* Mrs Eunice Owen. *Gwaith Llaw:* Miss Jennie Morris. *Arlunio:* Mr Gwyndaf Owen, Llanrug. *Cyfeilyddion:* Mrs M. Lloyd a Mrs Rhiannon Pritchard, *Ysgrifennydd:* Mrs Catherine Llwyd Williams. *Trysorydd:* Mrs Ceinwen Thomas.

**Dyma'r buddugwyr:**
**Maes Llafur dan 5 oed: 1. Rhian Thomas ac Elin Roberts, 2. Beverley Roberts, 3. Jason Baylis. Dan 6 oed: 1. Eryl Ogwen Roberts, Dylan Williams a Llinos Haf Jones. Dan 7 oed: 1. Anna Lloyd Roberts, 2 – , 3. Stephen Baylis. Dan 8 oed: 1. Euron Thomas a Glenda Jones, 2. Nicola Baylis, Annette Sellers ac Alan Pritchard, 3. Alun Baylis. Dan 9 oed: 1. Julie Wyn Baylis a Trystan Thomas. 2. Einir Thomas ac Iestyn Roberts. Dan 1o oed: 1. Delyth Williams ac Alan Parry, 2. Jacqueline Sellers. Dan 11: 1. Nia Gwyn Griffiths, 2. Arwyn Roberts a Sian Gwyn Griffiths, 3. Sian Ellen Pritchard. Dan 12: 1. Sharon Roberts ac Eirian Hughes a Gillian Jones, 2. John Gareth Morris a Catrin Lloyd Roberts. 14 oed: 1. Bethan Jones, 2. Geraint Jones ac Ann Evans a James Hughes, 3. Mark Parry.**
**Llenyddiaeth**. Dan 7 oed: 1. Euron Thomas, 2. Hayley Griffith, 3. Bruce Turner. Dan 8: 1. Julie Wyn Baylis, 2. Trystan Thomas, 3. Cai Lloyd Williams. Dan 9: 1. Delyth Williams, 2. Llion Hughes, 3. Einir Thomas ac Eirian Roberts. Dan 19: 1. Dylan Parry, 2. Jacqueline Sellers. Dan 12: 1. Sharon Roberts, 2. Ann Evans a Catrin Lloyd Roberts, 3. Helen Mai. Dan 14: 1. Petula Williams, 2. Ffion Jones a Bethan Jones, 3. Morfen Hughes a Derek Hughes. Dan 17: 1. Rhiannon Pritchard, 2. Menai Lloyd Hughes, 3. Keith Parry.
**Arlunio**. Dosbarth Meithrin: 1. Iona, 2. Jason, 3. Carys. Dosbarth I: 1. Dylan, 2. Elin, 3. Eryl ac Arwyn. Dosbarth II: 1. Jason, 2. Steven, 3. Anthony. Dosbarth III: 1. Glenda, 2. Deian, 3. Euron ac Edward. Safon I: 1. Trystan, 2. Stacey, 3. Llion ac Einir. Safon 2: 1. Delyth, 2. Dylan. Safon 3: 1. Glyn, 2. Nia Gwyn, 3. Sian Gwyn. Safon 4: 1. Eirian. Dosbarth I Ysgol Brynrefail: 1. Mark a Gwynfor. Dosbarth II: 1. Derek, 2. Gwyneth, 3. Geraint ac Eifion. Dosbarth 4: 1. Rhiannon a Menai.
**Canu**. Dan 4 oed: 1. Carys, 2. Rhian a Marion, 3. Manon. Dan 5 oed: 1. Huw, 2. Siôn, 3. Elin. Dan 6: 1. Dylan, 2. Steven ac Arwyn, 3. Eryl. Dan 7 oed: 1. Nicola a Jason, 2. Carys a Haley, 3. Ruth. Dan 8:1. Trystan, 2. Iestyn, 3. Annette a Deian. 8-10 oed: 1. Nia, 2. Dylan, 3. Jacqueline. Canu'r Piano dan 10: 1. Deian. Canu'r Piano dan 12: 1. Alun, 2. Timothy, 3. Helen Mai a Catrin. Danu dan 12: 1. Helen Mai, 2. Sian Elen a Catrin Lloyd, 3. Einir a Nia Gwyn. Canu dan 14: 1. Petula, 2. Morfen, 3. Janet. Piano dan 14: 1. Bethan, 2. Gwynfor ac Iona. Canu dan 17: 1. Rhian, 2. Rhiannon a Menna, 3. Amanda. Canu'r piano dan 17: 1. Rhiannon, 2. Rhian a Bethan. Deuawd Piano dan 17: 1. Bethan a Carys. Modulator dan 8: 1. Deian, 2. Trystan, 3. Euron. Dan 10: 1. Jacqueline, 2. Dylan, 3. Delyth ac Einir. Dan 12: 1. Catrin a Sian Elen, 2. Nia Sayr, 3. Einir. Dan 14: 1. Bethan, 2. Petula, 3. Morfen. Dan 17: 1. Rhiannon, 2. Amanda. Cân Werin: 1. Rhian Owen, 2. Ann Evans. Deuawd: 1. Rhiannon ac Amanda, 2. Bethan a Janet, 3. Bethan a Gwyneth. Parti Canu dan 10: 1. Parti'r Bechgyn, 2. Parti'r Genethod, 3. Parti Rhian. Unawd Gitâr: 1. Toby Manning, 2. Denise Pritchard. Unrhyw offeryn heblaw'r piano: 1. Rhian, 2. Bethan. Parti Pop: 1. Adlais, 2. Lleisiau Eryri. Cân Actol: 1. Y Bwgan Brain, 2. Cwyd Dafydd Bach, 3. Y Tŷ Bach Twt. Parti Canu dan 17: 1. Lleisiau Eryri, 2. Parti Marc.
**Adrodd.** Dan 4: 1. Rhian, 2. Carys a Manon. Dan 5: 1. Elin, 2. Iona a Huw, 3. Llion a Jason. Dan 6: 1. Steven, 2. Dylan ac Arwyn, 3. Eryl. Dan 7: 1. Nicola ac Euron, 2. Jason a Hayley, 3. Anthony. Dan 8 oed: 1. Edward a Trystan, 2. Deian a Iestyn, 3. Julie. Dan 10: 1. Nia, 2. Delyth a Dylan, 3. Jacqueline ac Einir. Dan 12: 1. Helen Mai, 2. Sian Elin a Catrin, 3. Ann Evans a Gillian. Dan 14: 1. Bethan, 2. Gwynfor. Dan 17: 1. Rhiannon. Cyd-adrodd: Parti Cheryl.

Enillwyd y darian am fwyaf o farciau dan 10 oed gan Trystan Thomas, ac o dan 16 oed gan Bethan Jones.

Y llywyddion yn ystod y ddwy noson ydoedd: Y parch Marcus Robinson, Mr Gwynfor Williams, Mr Serall Jones, a'r Parch Hugh John Hughes.

## RHODDION

Diolch i'r rhai canlynol am eu rhoddion hael:
£3: Mrs Williams, 12 Bryntirion, Penisarwaun. £1: Di-enw, Clwt-y-bont; Mr a Mrs N. Thorman Jones, 14 Tai Caradog, Deiniolen; Di-enw Deiniolen; Di-enw Deiniolen; Di-enw Deiniolen; Di-enw Prestatyn.


TRIP I'R ALMAEN

Cyfle ardderchog i ddianc o'r gwynt a'r glaw...

Rhowch gynnig ar ennill gwyliau braf yn haul y Cyfandir

YNG NGHYSTADLEUAETH NEWYDD

PAIS

ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst

AR GAEL YN EICH SIOP LEOL

# DEINIOLEN

YN YR YSBYTY – Drwg oedd gennym fod Mrs Mair Jones, 10 Tai'r Faenol wedi gorfod mynd i Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor ac wedi derbyn triniaeth lawfeddygol. Mae Mrs Jones yn Ysgrifennydd Clwb Elidir ers rhai blynyddoedd ac 'rwy'n siŵr y gallaf ddweud dros yr aelodau eu bod yn dymuno adferiad buan iddi, ac y bydd yn ôl ymysg ei ffrindiau ac yn ei swydd yn fuan iawn.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jane Griffiths, 11 Tai'r Faenol, ddiolch am y dymuniadau da, a'r llu cardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Mr John Williams, 3 Cynfi Terrace ddiolch i Staff Ysbyty Môn ac Arfon a Bryn Seiont am eu caredigrwydd tra bu dan eu gofal.Hefyd diolch i'w gymdogion ffrindiau, a'r teulu am eu cardiau a'r dymuniadau da. Diolch i bawb.

CYMANFA – Ebrill 26, cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr Deiniolen, Cwm-y-Glo a Llanberis eleni yng Nghapel Bosra, Penisarwaun. Gresyn i'r tywydd fod mor anffafriol. Yr arweinydd oedd Mr Robert Lloyd, Jeriwsalem, a'r organyddes oedd Mrs Ann Evans, Bosra. Trefnwyd cyfarfod y plant yn y pnawn gan Mr Gwyn Parry, Ebenezer ar y thema 'Duw Cariad Yw' a chymerwyd rhan gan blant eglwysi'r dosbarth. Mr Donald Jones, Ebeneser a gymerodd y rhannau arweiniol yng nghyfarfod yr hwyr.

LLONGYFARCHIADAU – I Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen, ar ddod yn gyntaf am gyfansoddi Drama mewn cystadleuaeth yng Nghymanfa'r Wesleiaid a gynhaliwyd yn Llangefni, Mai 2. Mae yn galondid mawr clywed am wragedd yn cymryd diddordeb yn y pethau hyn o hyd. Daliwch ati.

CYMANFA'R METHODISTIAID – Mai 3ydd cynhaliwyd Cymanfa Methodistiaid Cefn-y-Waen a Disgwylfa. Cynhaliywd cyfarfod y prynhawn yng nghapel Cysegr, Bethel, ac wedyn yng Nghapel Coch, Llanberis yn yr hwyr. Bydd hanes y rhai a lwyddodd yn yr arholiadau yn dod o dan newyddion Behtel gan ysgrifennydd y Gymanfa.

LLONGYFARCHIADAU – Hefyd i Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen ar ennill am ei Stori Fer mewn cystadleuaeth yn Sefydliad y Merched (Cystadleuaeth Cwpan Denman). Cafodd ei stori ei dewis i'w rhoi ym mhapur misol y Sefydliad 'Yma Thraw'. Ei thestun oedd pistyll y pentre. Dyma'r tro cyntaf iddi gystadlu yn y math yma o beth. Mae amryw wedi dymuno cael darllen y stori, felly bydd yn ein papur ni, yr Eco, y mis hwn. Daeth Mrs Gladys Evans, Gallt-y-Foel, yn gyntaf yn Gymraeg a Saesneg a hi a enillodd i'w gwaith fynd ymlaen yng nghystadleuaeth Cwpan Denman.

CLWB ELIDIR – Cynhaliwyd Cyfarfod o'r clwb uchod ddydd Mawrth, mai 12. Estynnwyd croeso yn ôl i Mrs Marnen ar ôl bod ar ei gwyliau am fis yn Rhodesia gan Miss Kathleen Jones. Yna cymerodd Mrs Marren y cyfarfod ac ar ran yr aelodau anfonwyd cofion at Mrs Mair Jones, Ysgrifennydd y clwb sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon. Hefyd i Miss Eleanor Jones sydd erbyn hyn wedi dod gartref. Estynnwyd croeso cynnes yn ôl hefyd i Mrs Annie Williams, 3 Y Bwthyn, sydd wedi bod yn absennol am beth amser oherwydd gwaeled. Rhoddwyd y te gan y chwiorydd canlynol: Mrs Elsie Davies, Gwyrfai Terrace; Mrs Mary Thomas, Tai'r Faenol; Mrs Katie Griffith a Mrs Maggie Roberts, Dinorwig. Enillwyd y raffl, a roddwyd gan Mrs Nan Williams, 26 Hafod Olau, gan Mrs H.J. Thomas, Tai Marian.

LLWYDDIANT CERDDOROL – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau cerdd: Ian P. Williams, 10 Tai Marian – Gradd 7; Rhian Jones, 2 Tai Gwleedfa – Gradd 6; Helen M. Jones, 14 Tai Marian, (Anrhydedd) – Gradd 4; Aeron M. Jones, 14 Tai Marian – Gradd 3. Maent i gyd yn ddisgyblion i Mr Peleg Williams.

BROWNIES – Llongyfarchiadau i Jennifer Ellen Jones ar ddod yn gyntaf, ail a thrydydd mewn tair ras nofio ym mhwll nofio Bangor mewn rasys nofio'r Brownies, Guides, a'r Rangers. Da iawn hi. Merch fach Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, 7 North Road yw Jennifer.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Yn y cyfarfod mis Mai, croesawyd Mrs M. Wigley VCO gan y Llywyddes, Mrs Eirlys Williams. Testun Mrs Wigley oedd y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain a thraddododd y penderfyniadau sydd i'w trafod yno ar Fehefin 5. Darllenwyd stori fer o'i Hunangofian gan Mrs Nancy Rowlands. Cafwyd noson ddiddorol a hwyliog. Diolchwyd i Mrs Wigley a Mrs Rowlands gan y llywyddes a Mrs H.J. Thomas, Mrs E. LL. Jones a Mrs Williams, y Bwthyn. Enillydd y raffl oedd Mrs N. Rowlands. Rhoddwyd y te gan Mrs Beti W. Davies, Mrs E. Ll. Jones a Mrs Eirlys Williams.

TABERNACL (2) – Llongyfarchiadau i Nia Wyn Griffith a Kevin Edwards ar ennill Medal y Tŷ Cenhadol am yr ail flwyddyn yn olynol yn Eisteddfod y Dalaith a gynhaliwyd yn Llangefni yn ddiweddar. Cafodd Mrs Eirlys Williams, 3 Pentre Helen y wobr gyntaf am gyfansoddi Drama Fer addas i'w llwyfannu mewn cystadleuaeth Papur Bro. Y testun a ddewisodd oedd 'Eco'r Wyddfa'.

DIOLCH – Dymuna Dilwyn Thorman Jones, 14 Tai Caradog ddiolch i'w holl ffrindiau a pherthnasau am y cardiau a'r anrhegion a'r dymuniadau da, ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Diolch yn fawr i bawb.

NEWYDDION Y SEINDORF – Bu'r Seindorf yn cystadlu yn Eisteddfod Môn, nos Sadwrn y Sulgwyn. Cynhaliwyd yr Eisteddfod eleni ym Mrynsiencyn. Enillwyr Clwb 200 mis Mai. 1. £25 Rhif 16: R.A. Lewis, Waenfro. 2. £15, Rhis 189. Mrs E. Roberts, 47 Rhydfadog. 3. £5, Rhif 99. Mr M. Jones, Minafon, Clwt-y-Bont.

CAPEL LIBANUS CLWT-Y-BONT – Arholiad Llafar: Llongyfarchiadau i'r canlynol ar dderbyn Seren Aur yn Arholiad Llafar Cymanfa Arfon. Dan 6: Donna Jones. Dan 8: Sian Jones, Catherine Lewis, Llion, Arwyn, Berwyn Roberts, (sef tri braw o Lanrug). Dan 11 oed: Griffith Orwig Lloyd Jones. Maent yn ddisgyblion yn Ysgol Sul Libanus, Clwt-y-Bont.

DYMUNIADAU GORAU – A Phen-blwydd hapus iawn i Mam; Mrs Myfanwy Thomas, a llawer blwyddyn eto oddi wrth Katie, Will a Dewi, 13 Pentre Helen.

DIOLCH – Dymuna John a Mary W. Jones, Awel-y-Mynydd ddiolch o galon i bawb am y gofal a'r caredigrwydd a dderbyniodd Dyfan Sion tra bu yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor, ac wedi dod adref. Diolch i'w llu cyfeillion am eu haelioni a'u dymuniadau da.

DIOLCH – Dymuna Mrs Carys Hughes, Ymwelydd lechyd, ddiolch o galon am y rhodd a'r dymuniadau da a dderbyniodd yn ddiweddar.

WEDI GWELLA – Da iawn oedd gennym ddeall bod Mr Tecwyn William, 15 Pentre Helen, wedi gwella, ac yn ôl yn ei waith unwaith eto. Balchach byth fod ei dŷ gwydr wedi dal wrth ei gilydd ar ôl yr eira mawr bythefnos yn ôl.

LLONGYFARCHIADAU – I Aelodau Aelwyd yr Urdd Deiniolen, a enillodd y tlws llenyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Teifi.

FFAIR WANWYN – Cynhaliwyd ffair lwyddiannus iawn nos Wener, Mai 15 yn Ysgol Gwaun Gynfi. Gwnaed elw o tua £150 tuag at Eglwys Disgwylfa. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd ym mhob rhyw fodd.

CEFN Y WAUN A DISGWYLFA – Llongyferchir y canlynol am eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol eleni. O dan 9: Dylan Wyn Williams (93), Dyfrig Wyn Lewis (91), Iwan Williams (81). O dan 14 oed: Dewi Wyn Lewis (80), Helen Mair Jones (68), Gwenlli Roberts (68), Ian Prys Roberts (62).

Cafodd y plant eu gwobrwyo yn y Cyfarfod Misol a gynhaliwyd yng nghapel Jeriwsalem, Bethesda, dydd Sadwrn, Mai 16. Llongyfarchiadau hefyd i fuddugwyr y Gymanfa. Gwelir eu henwau mewn colofn arall.



DIOLCH – I Miss Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, am y llun uchod. Tynnwyd y llun yn y Te Bach cyntaf i Oedolion a gynhaliwyd yn y pentref. Cynhaliwyd y te yn y clinig. Dim ond tair o'r chwiorydd yn y llun sydd yn fyw heddiw, sef Mrs Marren, Mrs Mudson a Mrs Ellis, Graiglwyd gynt. Mae hi yn awr yng nghartref yr henoed, Pengwaith, Llanberis. Mae Mrs Rowlands yn awyddus i wybod ym mha flwyddyn y tynnwyd y llun. Ffotograffydd 'Y Cymro' ddaeth i fyny i Ddeiniolen i gael y llun.

CYMANFA DOSBARTH DEINIOLEN

Cynhaliwyd y Gymanfa yn Eglwys Cysegr, Bethel, bnawn Sul, Mai 3. Dyma restr y buddugwyr yn yr Arholiad Llafar:

**Dan 4**: Gwenan Elis, Cysegr. **Dan 5**: (1af) – Elena Williams, Disgwylfa, Anita Jane Williams, Cefnywaun, Eilir Williams, Cefnywaun, Derwyn Jones, Cefnywaun, Marian Lloyd Jones, Brynrefail, Huw Owen, Cysegr, Menna Dauncey Williams, Cysegr, Llinos Ann Roberts, Cysegr, Llinos Angharad Morris, Cysegr, Leah Millican, Cysegr. (2il) – Catrin Keller, Disgwylfa. (3ydd) – Barry John Thomas, Disgwylfa, Arfon Roberts, Cysegr. **Dan 6**: (1af) – Maria Jane Davies, Disgwylfa; John Evans, Brynrefail, Owain Gwyn, Brynrefail, Nicola Houston, Brynrefail; Manon Elis, Cysegr; Esyllt Môn Jones, Cysegr. (2il) – Gwawr Pierce Williams, Cefnywaun. **Dan 7**: (1af) – Kelvin Houston, Brynrefail, Gwyn Hughes, Cysegr, Fiona Owen, Cysegr, Ruth Parry, Cysegr, Bethan Jones, Cysegr, Ian Wyn Jones, Cysegr, Sioned Meleri Owen, Cysegr. (2il) – Eira Wyn Evans, Brynrefail. **Dan 8**: (1af) – Dylan Price, Ysgoldy, Ian Roberts, Cysegr, Gwen Jones, Cysegr. (2il) – Mared Sutherland, Cefnywaun. (3ydd) – June M. Williams, Cefnywaun, Donna Woodcock, Disgwylfa, Eleri Llwyd Jones, Disgwylfa. (4ydd) – Vera Jean Williams, Cefnywaun, Ceryl Roberts, Cysegr. (5ed) – Martin Hughes, Cysegr, David Jones, Disgwylfa. **Dan 9**: (1af) – Dylan Wyn Williams, Cefnywaun, Catrin Gwyn, Brynrefail, Rhian Hughes, Cysegr, Carys Owen, Cysegr, Angharad Elis, Cysegr. (2il) – Paul Walters, Brynrefail, Kelvin Roberts, Cysegr. (3ydd) – Iwan Griffith Williams, Cefnywaun, Huw Llewelyn Williams, Cysegr, Maria Evans, Brynrefail. **Dan 10**: (1af) – Einir Gwyn, Brynrefail, Glenda Walters, Brynrefail, Caron Jones, Brynrefail, Elwyn Hope Parry, Cysegr, Aled Jones, Cysegr. (2il) – Andrew Jones, Cysegr, Joanne Evans, Brynrefail. **Dan 11**: (1af) – Meinir Dauncey Williams, Cysegr. (2il) – Amanda Owen, Cysegr, Helen Jones, Cysegr, Rhian Price Williams, Ysgoldy, Jacqueline Williams, Brynrefail. (3ydd) – Nerys Williams, Brynrefail, Rhian Parry, Cysegr. (4ydd) – Ceri Williams, Disgwylfa. (5ed) – Jennifer Williams, Cefnywaun. **Dan 12**: (1af) – Clive Roberts, Cysegr. (2il) – Dewi Rees Williams, Disgwylfa, Alwena Jones, Brynrefail. (3ydd) – Dewi Wyn Williams, Cysegr. **Dan 13**: (1af) – Helen Mair Jones, Cefnywaun, Manon Williams, Cysegr. (2il) – Enid Price, Cysegr. (3ydd) – Judith Owen, Cysegr, Myfyr Wyn Jones, Cysegr. **Dan 14**: (1af) – Delyth Vaughan Williams, Cysegr. **Dan 15**: (1af) – Anwen Thomas Jones, Disgwylfa, Elfed Williams, Disgwylfa. **Côr Adrodd dan 9**: (1af) – Parti Esyllt, Cysegr, Parti Huw, Cysegr, Parti Brynrefail. (2il) – Parti Cefnywaun. **Côr Adrodd dan 12**: (1af) – Parti Brynrefail. **Côr Adrodd dan 16**: (1af) – Parti Brynrefail. **Arholiad Llafar dan 50**: (1af) – Mrs Eurgain Jones, Cysegr, Miss Myfanwy W. Jones, Cysegr, Mrs Norah Parry, Cysegr, Mrs Dianne Roberts, Cysegr, Miss E. Griffiths, Cefnywaun. **Dros 50**: (1af) – Mrs E. Davies, Disgwylfa, Mrs M. Thomas, Cefnywaun. **Cydadrodd dan 50**: (1af) Parti Cysegr. **Arholiad Ysgrifenedig**: *Yr arholwr oedd y Parch John Owen, Rhuthun. Dyma'r canlyniadau:* **Dan 9**: (1af) – Dyfrig Wyn Lewis, Disgwylfa. (2il) – Angharad Elis, Cysegr, Iwan Gruffudd Williams, Cefnywaun. (3ydd) – Catrin Gwyn, Brynrefail, Aled Jones, Cysegr, Dylan Wyn Williams, Cefnywaun, June Mari Williams, Cefnywaun. (4ydd) – Carys Owen, Cysegr, Andrew Jones, Cysegr, Elwyn Hope Parry, Cysegr. (5ed) – Kelvin Roberts, Cysegr. (6ed) – Paula Walters, Brynrefail, Maria Evans, Brynrefail. **Dan 11**: (1af) – Einir Gwyn, Brynrefail. (2il) – Glenda Walters, Brynrefail. (3ydd) – Joanne Evans, Brynrefail. (4ydd) – Jacqueline Olive Walters, Brynrefail, Caron Haf Jones, Brynrefail, Olwen Jane Jones, Brynrefail. (5ed) – Nerys Williams, Brynrefail. (6ed) – Tegid Wyn Roberts, Cefnywaun. (7ed) – Jenny Ann Williams, Cefnywaun. (8ed) – Jelen Jane Jones, Cysegr. **Dan 14**: (1af) – Dewi Wyn Lewis, Disgwylfa. (2il) – Helen Mair Jones, Cefnywaun. (3ydd) – Gwenlli Roberts, Cefnywaun. (4ydd) – Ian Prys Roberts, Cefnywaun, Bethan Diane Jones, Cefnywaun.

*Yr arweinydd canu yn y Gymanfa oedd Miss Lowri Prys Roberts, Brynrefail a'r organyddes oedd Miss Helen Jones, Cysegr. Bu'r canlynol o'r Dosbarth yn llwyddiannus yn yr Arholiad Sirol:* **Dan 9**: Dyfrig Wyn Lewis, Disgwylfa, Iwan Gruffudd Williams, Cefnywaun, Catrin Gwyn, Brynrefail, Carys Owen, Cysegr, Elwyn Hope Parry, Cysegr, Kelvin Roberts, Cysegr. **Dan 11**: Einir Gwyn, Brynrefail, Glenda Walters, Brynrefail. **Dan 14**: Dewi Wyn Lewis, Disgwylfa, Helen Mair Jones, Cefnywaun, Gwenlli Roberts, Cefnywaun, Ian Prys Roberts, Cefnywaun.


STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

# Dyddiadur y Mis

**MEHEFIN**

**LLUN 1, LLANBERIS,** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
**MAWRTH 2, LLANRUG –** Noson o 'Sosej a Sglodion' yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. Yr elw er budd Eglwys Sant Mihangel.
**MERCHER 3, BETHEL –** Gwibdaith Clwb Bro Bethel i Bwllheli, Nefyn ac Aberdaron.
**IAU 4, LLANRUG –** Noson o De, Prynu a Gwerthu yn y Neuadd Goffa dan nawdd Clwb Blodau'r Grug.
**CWM-Y-GLO –** Noson Goffi Cymdeithas Chwiorydd Capel Mawr am 7.00.
Clwb Pobl y Cwm.
**GWENER 5, LLANBERIS –** Te yr Henoed.
**BETHEL –** Noson Goffi dan nawdd Merched y Wawr yn y Neuadd.
Cinio Diwedd Tymor Clwb y Mamau ym Mron Eryri, Llanberis.
**SADWRN 6, YR ARDAL –** Gwibdaith Flynyddol Clwb Eryri i Ddyffryn Conwy.
**LLANRUG –** Yr Ysgol Feithrin – Taith Feic Noddedig.
**SUL 7, PENISARWAUN –** Dydd Gŵyl Gweddi a Rhodd Eglwys Santes Helen.
**MEHEFIN 8-15 –** Gŵyl Mudiad Ysgolion Meithrin.
**LLUN 8, LLANBERIS –** Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
**MAWRTH 9, LLANRUG –** Gwibdaith Merched y Wawr i Ynys Môn.
**BETHEL –** Gyrfa Chwist dan nawdd yr Ysgol Feithrin yn y Neuadd am 7.00.
**MERCHER 10, LLANBERIS –** Bingo dan nawdd Pwyllgor yr Ysgol Feithrin yn y Ganolfan am 7.30.
**IAU, 11, CWM-Y-GLO –** Clwb Pobl y Cwm.
**GWENER 12, BETHEL –** Taith Gerdded Noddedig y Dawnswyr Morris.
**GWENER 19, LLANBERIS –** Te yr Henoed.
**MAWRTH30, PENISARWAUN –** Gwibdaith flynyddol Clwb yr Heulwen i Borthmadog, Llanbedr a Dolgellau.

**DYDDIADAU I'W COFIO**

**Gorffennaf 1-3 –** Carnifal Penisarwaun
**Gorffennaf 5-11 –** Carnifal Deiniolen
**Gorffennaf 11 –** Carnifal Waunfawr
**Gorffennaf 12-18 –** Carnifal Llanberis
**Gorffennaf 27 –** Carnifal Bethel
**Awst 22 –** Carnifal Cwm-y-glo
**Gorffennaf 4 –** Trip Ysgol Sul Plant Santes Helen, Penisarwaun
Trip Ysgol Sul Plant Capel Bosra Penisarwaun

## DEINIOLEN

PWYLLGOR RHEOLI CANOLFAN DEINIOLEN – Mae cryn waith wedi ei wneud ar y Ganolfan yn barod. Yn ddiweddar codwyd toiledau newydd yno, a hefyd mae'r nenfwd wedi ei gwblhau, ac y mae trydan i mewn. Cawsom 3 gwresogydd i'r Ganolfan, ac yr ydym yn disgwyl yn fuan rhoddi'r seddau i bobl i eistedd i mewn. Diolch o galon i'r rhai a fu'n cynorthwyo gyda'r gwaith, a hefyd i rhai hynny sydd yn dal i helpu

## FFRWYDRAD!



*Dyma beth welodd ffotograffydd yr Eco ar lan Llyn Padarn ddydd Sadwrn, 23 Mai. Rhwyg mewn peipen ddŵr a achosodd y fath olygfa — gyda'r dŵr yn codi tua 60 troedfedd uwchben y maes parcio.*


# ALUN GLYN JONES
**(Wetton a Thomas)**
**14 Ffordd Garth, BANGOR. Ffôn: 53705**
**(ochr draw yr orsaf bysiau)**





DEWIS DA

PRISIAU TEG

STAFF PROFIADOL

Dowch i'n gweld, mi gewch groeso mawr yn awyrgylch gartrefol y siop, a phob sylw gan Alun Glyn a'i staff.



**CARPEDI**

Gostyngiad sylweddol am arian parod
Gosodir pob carped am ddim

Dibynnwch ar ansawdd
lle bo ansawdd yn cyfrif

**LLENNI**



# CHWARAEON LLANBERIS
# AR Y BRIG . . . ac YN Y TWLL!!

**A DAETH diwedd y tymor pêl-droed o'r diwedd! A thymor cynhyrfus a fu hefyd, hyd yn oed i dri thîm yr ardal. Llanrug yn edrych fel pe baent am redeg i ffwrdd â'r Gynghrair ymhell cyn diwedd y tymor ond yn disgyn yn glewt cyn diwedd y ras. Bethel yn brwydro'n eu tymor cyntaf yn y Gynghrair i beidio â gorffen ar waelod y tabl – ond yn methu. Os methiant oedd hanes Llanrug a Bethel, yna llwyddiant digamsyniol ddaeth i Lanberis am yr ail dymor yn olynol. Dyma restr o'u gorchestion: Pencampwyr Cynghrair Caernarfon a'r Cylch am yr ail dymor yn olynol, enillwyr Cwpan Alves a'r Cwpan Morrings. Bu ond y dim iddynt hefyd ennill Cwpan Penrhyn.**

Cwpan Alves oedd y cyntaf a ddaeth i'w meddiant y tymor hwn, a hynny mewn gêm braidd yn ddigyffro yn erbyn Llanrug ar Gae Tŷ Gwyn, Caernarfon. Er i Lanrug fynd ar y blaen yn gynnar yn y gêm gyda gôl gan Wyn Hughes, sgoriodd Llanberis dair gôl sydyn cyn yr egwyl, a dwy o'r rheini yn anrhegion gan amddiffynfa Llanrug. Yn yr ail hanner gwnaeth Llanberis eu buddugoliaeth yn ddiogel gyda gôl arall. Y sgorwyr oedd Gareth Jones, Selwyn Allsopp, Maldwyn Jones a Gareth Williams.

Roedd tair gêm olaf y mis i Lanberis yn erbyn tîm Bangor Athletic; dwy ohonynt yn gemau cwpan, a'r llall yn gêm gynghrair yr oedd yn rhaid ei hennill. Roedd gêm derfynol Cwpan Penrhyn yn gyffrous iawn, gyda'r ddau dîm yn chwarae'n dda. Ar ddiwedd 90 o funudau roedd y sgôr yn parhau'n gyfartal – tair gôl yr un, gyda Peter Jones (2) a Maldwyn Jones yn sgorio i Lanberis. Yn anffodus, methodd coesau hogia Llanbêr a dal y chwarae ychwanegol ac yr oedd un gôl i Fangor yn ddigon i ennill y gêm.

Bu'n rhaid chwarae amser ychwanegol eto yn y gêm derfynol am Gwpan Moorings ddwy noson yn ddiweddarach. Y tro hwn nid oedd hanner awr ychwanegol o chwarae yn ddigon i wahanu'r ddau dîm, a chyda'r sgôr yn gyfartal ar dair gôl yr un, rhaid oedd setlo tynged y cwpan ar benaltis. Roedd Peter Jones, Gareth Jones, Ray Harding a Gareth Williams yn ddigon da i guro gôl-geidwad Bangor, ond ni fu hogia Bangor mor ffodus, a daeth Cwpan Moorings i afael y 'Darans'.

Ac felly i gêm olaf y tymor. O bosibl fod y ddau dîm wedi hen syrffedu chwarae ei gilydd, ond roedd yn rhaid i Lanberis ennill y gêm hon hefyd neu byddai'r bencampwriaeth yn eiddo i Bwllheli. Roedd tîm Pwllheli i gyd yn gwylio'r gêm, ac yn naturiol yn cefnogi Bangor! Ond doedd gan Bangor ddim i'w ennill o'r gêm hon, a Llanberis aeth â hi gyda dwy gôl gan Ray Harding ac un gan Iwan Evans. Pan sgoriodd Ray Harding ei ail gôl yn y gêm hon, cyrhaeddodd Llanberis gyfanswm o 100 gôl yn y Gynghrair, yr unig dîm i wneud y gamp honno y tymor hwn.

Roedd tîm ieuenctid Llanberis yr un mor benderfynol â'r tîm hŷn o lwyddo, a than arweiniad Iwan Williams a Lal Jones buont yn fuddugol yng nghystadleuaeth ieuenctid y Gynghrair, gan ennill y Bencampwriaeth yn ystod tymor cyntaf ei fodolaeth. Yng ngêm derfynol Cwpan Ieuenctid y Gynghrair, colli fu eu hanes yn erbyn tîm Porthmadog. Sgwn i faint o'r tîm ieuanc hwn fydd yn cynrychioli tîm Llanberis yn y dyfodol?

Tra roedd timau Llanberis yn ennill gwobrau ar y maes chwarae, roedd y pwyllgor brwdfrydig wrthi'n brysur yn gwella'r cyfleusterau ar gyfer y tymor nesaf. Daeth y siawns o gael ystafelloedd newid newydd yn lle'r hen gwt sinc tywyll, ond roedd cryn waith clirio a thyllu sylfaen. Bu'r criw bychan selog wrthi'n galed yn eu horiau hamdden, a bellach mae adeilad coed newydd wedi ei osod yng nghongl Cae Padarn, a gobeithir y bydd yn barod i'w ddefnyddio erbyn dechrau'r tymor nesaf.



*Aelodau Pwyllgor Pêl-droed Llanberis wrthi'n agor sylfaen ar gyfer yr ysgafelloedd newid newydd. O'r chwith i'r dde: Eurwyn Thomas, Robin Jones, Len Jones, John Williams, Meirion Griffith, Lal Jones a Now Tom.*

## DIOLCH . . .

Ar ddiwedd tymor pêl-droed arall, ac yn dilyn Cyfarfod Blynyddol yr Eco, carwn ddiolch i bawb a fu'n cyfrannu straeon, erthyglau a lluniau i'r dudalen chwaraeon. Diolch yn arbennig i A. Hughes, o dîm pêl-droed Bethel ac E. Williams o dîm pêl-droed Llanberis am eu prydlondeb gyda'r adroddiadau ar fore Sul, ac ymddiheuraf am eu codi'n gynnar ambell waith!

## TÎM IEUENCTID LLANBERIS



*Tîm ieuenctid Llanberis; enillwyr Cynghrair Ieuenctid Caernarfon a'r Cylch. Rhes gefn, chwith i'r dde: Stephen Owen, Owen Gruffydd, David J. Brailsford, Kevin Williams, Maldwyn Williams, Iolo Evans, Dewi Roberts, Dilwyn Morris, Nigel Orritt ac Adrian Wakeham. Richard Ll. Williams, Emlyn Jones, Terence Griffith, Ian Pritchard a Kevin Jones. Heb fod yn y llun ond wedi chwarae yn ystod y tymor mae Philip Guy, Carl Wannop a Richard Williams.*



*Tîm Llanberis 1961-62. Camp debyg i dîm eleni. Enillwyr Pencampwriaeth y Gynghrair, Cwpan Alves, Cwpan Penrhyn a Chwpan Deanfield. Mae Cwpan Deanfield bellach yn cael ei roi i'r ail dîm gorau yn y Gynghrair. Mae rhai o'r enwau gennym. Beth am y gweddill?*



*Tîm ieuenctid Llanberis a'u cefnogwyr ieuengach yn dathlu ar ôl ennill y Bencampwriaeth. Bydd rhai o'r hogia hyn rhyw ddiwrnod yn chwarae i'r tîm.*